Cyngor Sir y Fflint

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020

(diweddariad yn dilyn ymgynghori)

Medi 2017

Fersiwn 4

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020

Y Weledigaeth:
Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymdrechu i **gynyddu** nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl o fewn ei ffiniau, gyda'r nod o greu sir a gwlad gynyddol ddwyieithog. Mae Cyngor Sir y Fflint yn ceisio cael pobl o bob oedran i wella eu sgiliau iaith Gymraeg ac i fod â'r gallu i ddefnyddio'r rhain yn hyderus o fewn eu teuluoedd, yn eu mannau dysgu, yn eu gweithleoedd ac yn eu cymunedau.

Egwyddorion:

- Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol a blynyddoedd cynnar ar gael ar draws yr awdurdod i gefnogi ac annog rhieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant
- Mae addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bob dysgwr o fewn pellter teithio rhesymol i'w cartref
- Unwaith yn y sector cyfrwng Cymraeg, mae pob dysgwr yn trosglwyddo'n llwyddiannus ar bob pwynt pontio → e.e. grwpiau teulu/plant bach → cylch chwarae → addysg gynnar → dosbarth meithrin rhan amser → ysgol gynradd → ysgol uwchradd
- Mae dysgwyr Cymraeg iaith gyntaf mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (cynradd ac uwchradd) yn cyflawni'r canlyniadau uchaf posibl yn y Gymraeg
- Mae dysgwyr Cymraeg ail iaith o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn cael eu cefnogi a'u hannog i gael mynediad i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, trwy raglen drochi bwrpasol
- Mae dysgwyr Cymraeg ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (cynradd ac uwchradd) yn cyflawni'r canlyniadau uchaf posibl yn y Gymraeg
- Mae cydweithio effeithiol yn bodoli gyda phartneriaid, asiantaethau a gwasanaethau eraill i hyrwyddo a chynyddu dwyieithrwydd
- Mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cyfle ieithyddol cyfartal
- Mae pob dysgwr yn dod yn hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Mae cynnydd ac ymrwymiad i ddatblygu'r Gymraeg ar draws pob agwedd ar y Cyngor yn cael ei ddathlu

Ymrwymiad:
Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymroddedig i gefnogi, ymestyn a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn y gymuned gyfan a chynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg, yn unol â 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg' Llywodraeth Cymru, i ddatblygu dysgwyr sy'n gwbl ddwyieithog (h.y. yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg).

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i ystyried polisïau Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau cenedlaethol yn llawn yn ei strategaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg:-

Ailysgrifennu'r Dyfodol – Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i egwyddorion codi dyheadau a chyrhaeddiad yn ei ysgolion trwy gael gwared ar rwystrau sy'n wynebu dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Mae'n anelu at gyflawni hyn drwy godi dyheadau ar draws y rhwydwaith addysg, drwy osod targedau heriol ar gyfer gwella ar draws ei ddangosyddion perfformiad allweddol, drwy ddarparu'r cyfleoedd o'r ansawdd uchaf ar gyfer dysgu ac addysgu, trwy ymyriadau amserol a phriodol ar gyfer dysgwyr unigol, a thrwy ddefnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion a Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar.

Dyfodol Llwyddiannus – mae rôl yr iaith Gymraeg yn y cynigion cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei datgan yn glir yn yr adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus'. Mae Cyngor Sir y Fflint yn gwbl ymroddedig i weithredu'r model cwricwlwm newydd i sicrhau gwelliannau yn ansawdd y cyfarwyddyd iaith Gymraeg, i ehangu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol ar draws pob darparwr addysgol, a gwella'r canlyniadau a gyflawnir gan holl ddysgwyr Sir y Fflint yn y Gymraeg.

Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Mae Cyngor Sir y Fflint yn gwbl ymroddedig i'r saith nod yn y Ddeddf drwy gefnogi a datblygu cymdeithas o fewn ei ffiniau sy'n hyrwyddo, yn diogelu ac yn dathlu diwylliant, treftadaeth, yr amgylchedd, yr economi, iechyd, amrywiaeth y gymuned ac iaith Cymru.

Strategaeth Ddrafft WG - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 – Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r targed uchelgeisiol a heriol hwn trwy ei gynlluniau strategol, i gynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg a gwella'r canlyniadau a gyflawnir gan ei holl

ddysgwyr yn y Gymraeg. Y brif strategaeth ar gyfer cyflawni'r targed hwn yw annog mwy o rieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg ar y cychwyn i'w plant, fel eu bod yn cael y cyfle gorau i ddod yn gwbl ddwyieithog. Agwedd allweddol ar hyn yw codi ymwybyddiaeth rhieni o gartrefi sy'n siarad Saesneg, o'r manteision o fod yn gwbl ddwyieithog ac i ddileu rhwystrau a allai eu hatal rhag meddwl bod addysg cyfrwng Cymraeg yn addas i'w plant.

Ysgolion yr 21ain Ganrif a Rhaglen Addysg – Bydd rhaglen buddsoddi cyfalaf Cyngor Sir y Fflint, ar y cyd â'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn cael ei datblygu a'i chyflwyno yng ngoleuni gofynion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg er mwyn sicrhau gwelliannau yn ansawdd ystad yr ysgolion i godi canlyniadau ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rheini yn y sector cyfrwng Cymraeg.

Amcanion:
Bydd Cyngor Sir y Fflint, gan weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, rhanddeiliaid a darparwyr eraill yn:-

- darparu gwybodaeth lawn i rieni ac yn sicrhau eu bod yn deall manteision addysg cyfrwng Cymraeg a'r cyfleoedd sy'n bodoli yn Sir y Fflint, gan esbonio'n eglur

  (a) nad oes angen i rieni fod yn siaradwyr Cymraeg i'w plant fanteisio ar y cyfle hwn
  (b) mai dim ond drwy dderbyn addysg mewn ysgol Gymraeg ddynodedig y bydd disgyblion yn dod yn gwbl ddwyieithog
  (c) bod manteision deallusol yn gysylltiedig â bod yr un mor rhugl yn y ddwy iaith

- gweithio gyda rhanddeiliaid i gynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn sylweddol, yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig presennol yn y Sir (5 cynradd ac 1 uwchradd yn 2016) a gwella hynny drwy:-

  (a) gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg gan gynnwys gwasanaethau addysg gynnar

  (b) datblygu system drochi sy'n fwy effeithiol i gyflawni cynnydd graddol yn nifer y disgyblion yn Uned Drochi Blwyddyn 6/Blwyddyn 7 Ysgol Maes Garmon flwyddyn ar ôl blwyddyn, i oddeutu 30 o leoedd erbyn 2020

  (c) niferoedd cynyddol o ddisgyblion sy'n dechrau cyfrwng Cymraeg yn B2-B6 drwy ddarparu rhaglen drochi a gynllunir yn benodol

- gweithio gydag ysgolion fel Awdurdod Lleol a thrwy'r Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion (GwE) i ddatblygu rhaglen effeithiol o gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y gweithlu addysg, a fydd yn cynyddu nifer yr ymarferwyr posibl o fewn y sector cyfrwng Cymraeg.
  Bydd hyn yn helpu i sicrhau:

  (a) cyfle cyfartal mewn datblygiad proffesiynol parhaus i ymarferwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg
  (b) cyfoeth o arbenigedd mewn meysydd cwricwlwm a rheoli i gefnogi datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg

- gweithio gydag ysgolion i godi safonau'r holl ddysgwyr
  (a) yn y sector cyfrwng Cymraeg (Cymraeg Iaith Gyntaf a phynciau'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y cwricwlwm)
  (b) yn y sector cyfrwng Saesneg (lle mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu a'i hyrwyddo fel ail iaith)

- sicrhau bod Aelodau etholedig, swyddogion, penaethiaid a llywodraethwyr (cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg) gyda gwybodaeth a dealltwriaeth lawn o natur addysg cyfrwng Cymraeg a bod y neges hon yn treiddio trwy bob agwedd ar waith y Cyngor

- diogelu a chynyddu'r ddarpariaeth gyfredol, gan sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion o fudd i'r iaith Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg

Fforwm Strategol y Gymraeg:
Mae gan Gyngor Sir y Fflint Fforwm Strategol y Gymraeg sefydledig ac effeithiol sy'n cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Ei gylch gwaith yw:-

- Cefnogi swyddogion y cyngor i ddatblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n cynnwys targedau heriol a mesurau perfformiad i gyflawni llwyddiant
- Monitro gweithrediad y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gwerthuso ei lwyddiant wrth gyflawni ei amcanion
- Sicrhau bod croesgyfeirio priodol yn cael ei wneud gyda chynlluniau a strategaethau eraill - yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol
- Darparu cefnogaeth a her wrth weithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Sicrhau bod asesiadau rheolaidd o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnal i lywio'r blaenoriaethau o fewn Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, fel y penderfynir gan ofynion rheoleiddio Llywodraeth Cymru
- Darparu adborth i arweinwyr ac aelodau etholedig y Cyngor drwy'r dulliau priodol e.e. Cabinet, Addysg ac Ieuenctid a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu
- Cael tystiolaeth a chyngor gan gyrff a phartneriaid perthnasol i wella llwyddiant y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wrth gyflawni ei amcanion
- Darparu fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth a lledaenu arfer gorau

Datganiad:
Mae gan Gyngor Sir y Fflint gynllun uchelgeisiol ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg ac yn ceisio adeiladu'n effeithiol ar ei gyflwyniad yn dilyn Eisteddfod yr Urdd lwyddiannus iawn ym Mai 2016. Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi ehangu ei ddarpariaeth addysg gynnar cyfrwng Cymraeg ac wedi sefydlu darpariaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn ardal Glannau Dyfrdwy sydd yn tyfu'n raddol.

Mae gan y Cyngor berthynas waith effeithiol iawn gyda phartneriaid allweddol yn y sector Cymraeg e.e. Mudiad Meithrin, Menter Iaith Sir y Fflint, yr Urdd a Choleg Cambria, a'r gweithio ar y cyd hwn yw conglfaen darpariaeth y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae Fforwm Strategol y Gymraeg yn darparu cymorth a chraffu effeithiol ac mae'n sail i'r broses gyfan o gyflwyno'r cynllun.

Cymeradwyaeth y Cabinet:
Trefnir bod y cynllun hwn yn cael ei ystyried gan Gabinet Cyngor Sir y Fflint a'i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn Rhagfyr 2016.

Cludiant:
Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan Adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn bodloni gofynion Adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Mae Polisi Cludiant Ysgolion yr awdurdod lleol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol i gael cludiant am ddim i ysgolion Cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r meini prawf pellter a osodwyd yn y Mesur Teithio gan Ddysgwyr, h.y. 2 filltir ar gyfer plant oedran cynradd a 3 milltir ar gyfer uwchradd. Mae hyn yn cynnwys darparu cludiant am ddim i ysgolion cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r Sir os yw'n briodol, ar yr amod mai'r ysgol hon yw'r agosaf at gyfeiriad cartref y dysgwr. Mae mynediad i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei hwyluso gan ddarparu rhwydwaith o lwybrau cludiant addas ac amseroedd teithio nad ydynt yn ormodol.

Gan fod y Cyngor wedi agor safle cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn ddiweddar yn Shotton, sy'n safle ychwanegol at Ysgol Croes Atti yn y Fflint, her dros y blynyddoedd nesaf fydd rheoli trefniadau cludiant ar gyfer brodyr a chwiorydd sydd wedi rhannu darpariaeth addysg rhwng Ysgol Croes Atti yn y Fflint a'r safle newydd yn Shotton.

Darperir cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n dymuno cael mynediad at gyrsiau ôl-16 yn Ysgol Uwchradd cyfrwng Cymraeg yr awdurdod lleol. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys darparu cludiant am ddim i sefydliadau addysgol mewn awdurdodau cyfagos os yw hynny'n briodol, os yw'r cyrsiau a ddilynir mewn safleoedd dros 3 milltir ac agosaf at gyfeiriad cartref y dysgwr. Gan fod cludiant ôl-16 yn ddewisol ar gyfer yr holl awdurdodau lleol o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr, er nad oes cynlluniau ar hyn o bryd i ddiwygio'r polisi, gallai cael gwared ar y ddarpariaeth ddewisol hon yn y dyfodol gyflwyno her, o ran gallu dysgwyr i gael mynediad at addysg ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg.

Canlyniad 1 : Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r sefyllfa bresennol yn ymwneud â nifer y plant saith oed a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg a thargedau Sir y Fflint ar gyfer y tair blynedd nesaf fel a ganlyn:

Y Sefyllfa Gyfredol *	2017/2018	2018/2019	2019/2020
6.6%	**6.8%**	**7.2%**	**7.4%**
*Yn seiliedig ar y Nifer cyfredol ar y Gofrestr mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg o gyfrifiad ysgolion Medi 2016.	Poblogaeth gyfredol Bl 1 = 113 o ddisgyblion / 6.5% o boblogaeth gynradd	Poblogaeth gyfredol Dosbarth Derbyn = 124 o ddisgyblion /7.0% o boblogaeth gynradd	Poblogaeth gyfredol Meithrin = 116 o ddisgyblion / 7.2% o boblogaeth gynradd (nid yw pob plentyn yn cael mynediad at ddarpariaeth feithrin rhan amser)
Targedau diwygiedig yn seiliedig ar ddata arolwg (Mehefin 2017)**	**6.8%**	**9.0%**	**11.0%**

*Roedd y cynnydd canrannol wedi'i dargedu ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf yn isel i ddechrau, oherwydd ei fod yn seiliedig ar y disgyblion hysbys cyfredol sydd eisoes yn y sector cyfrwng Cymraeg yn symud drwy'r grwpiau blwyddyn o fewn y Cyfnod Sylfaen. O'n profiad ni, nid yw disgyblion fel arfer yn symud o ddarpariaeth meithrinfa cyfrwng Saesneg i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

**Fodd bynnag, mae'r arolwg diweddar am alw ar y cyfrwng Cymraeg (Mehefin 2017) wedi darparu rhywfaint o ddata calonogol i'r Cyngor, y gellir ei ddefnyddio i ddiwygio'r targedau erbyn diwedd y cylch Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg hwn. Roedd y gyfradd ddychwelyd yn well y tro hwn, sef 31%, na'r blynyddoedd blaenorol. Roedd rhieni plant cyn ysgol a gafodd arolwg ar draws y sir, ac a ymatebodd, yn cynrychioli 29% o'r garfan disgyblion posibl i gael mynediad at ysgol yn llawn amser ym Medi 2019 a Medi 2020. Mae hwn yn welliant mawr ar gyfradd ymateb y blynyddoedd blaenorol ac yn dangos diddordeb cynyddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Yn seiliedig ar ymatebion rheini i'r cwestiwn o ba mor debygol oeddent o ddewis addysg cyfrwng Cymraeg pe bai ar gael o fewn 2 filltir o'u cartref, a gafodd ei groesgyfeirio wedyn gyda dadansoddiad o niferoedd disgyblion sy'n mynd i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ers 2010, mae'r arolwg yn modelu tuedd cynyddol posibl o dderbyniadau blynyddol i addysg cyfrwng Cymraeg o oddeutu 2.0% o Fedi 2018 i 2020. Er nad yw'r data yn gwbl gynrychioliadol o garfan gyfan rhieni Sir y Fflint yn y dyfodol, mae'n arwydd calonogol bod mwy yn dangos parodrwydd i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg pe bai o fewn radiws o 2 filltir i'w cartref, ac yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r Cyngor gynllunio ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

Mae'r cynnydd canrannol wedi'i dargedu ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf yn isel oherwydd ei fod yn seiliedig ar y disgyblion cyfredol sydd eisoes yn y sector cyfrwng Cymraeg yn symud drwy'r grwpiau blwyddyn o fewn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ffigurau hyn yn annhebygol o newid yn sylweddol ond gall amrywio ychydig trwy batrwm arferol o symudedd disgyblion i mewn ac allan o'r awdurdod.

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn byddwn yn:

- Datblygu gwaith partneriaeth effeithiol ymhellach gyda Llywodraeth Cymru, Menter Iaith Sir y Fflint, Mudiad Meithrin, Dechrau'n Deg a darparwyr gofal plant eraill i gyflwyno gwasanaethau hygyrch Cymraeg cyn-ysgol sydd o ansawdd uchel ac i hyrwyddo manteision o fod yn ddwyieithog ac annog rhieni i wneud dewis cynnar i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.
- Sicrhau bod darparwyr cyfredol addysg cyfrwng Cymraeg yn ysgolion sy'n perfformio'n dda (canlyniadau dysgwyr / categoreiddio cenedlaethol / Adroddiadau Estyn / enw da lleol) i ddenu rhieni i ddewis cyfrwng Cymraeg ac yna sicrhau eu bod yn aros yn y sector addysg cyfrwng Cymraeg.
- Ymgynghori gydag ysgolion yn ystod 2017-18 i newid categoreiddio iaith rhai ysgolion cyfrwng Saesneg i ddatblygu darpariaeth dwyieithog a chynyddu nifer y plant 7 oed a ddysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Parhau i hyrwyddo Siarter Iaith i wella a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i ddysgu ffurfiol, ei hymgorffori ym mhobl ifanc heddiw fel eu bod yn cynnal y defnydd o'r iaith yn y dyfodol ac yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant pan fyddant yn dod yn rhieni.

- Gwella'r rhaglen 'Trochi' er mwyn annog mwy o ddisgyblion cynradd a addysgir trwy gyfrwng y Saesneg i drosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Datganiad Ategol:
Ar hyn o bryd mae gan Sir y Fflint pum ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg, wedi'i gwasgaru'n ddaearyddol ar draws yr awdurdod:

- Ysgol Mornant, Gwesbyr Picton *
- Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon
- Ysgol Croes Atti y Fflint yn cynnwys safle ychwanegol Glannau Dyfrdwy yn Shotton
- Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug
- Ysgol Terrig, Treuddyn
- Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug (uwchradd)*

*O 10 Tachwedd 2016, mae Ysgol Mornant ac Ysgol Maes Garmon wedi creu ffederasiwn - Cwlwm - i warchod a chryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal wledig gogledd Sir y Fflint. Mae'r dull hwn wedi cael ei gymryd gan lywodraethwyr y ddwy ysgol gyda chefnogaeth lawn y Cyngor Sir, gan fod Ysgol Mornant wedi cyrraedd y sbardunau o fewn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y cyngor ar gyfer adolygiad, ac i gau o bosibl. Bydd sicrhau y bydd y dull arloesol ac unigryw hwn yn Sir y Fflint yn llwyddiannus yn darged sylfaenol y Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg cyfredol.

Mae gan bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y sir gysylltiadau cryf iawn gyda chylch chwarae sy'n gysylltiedig â Mudiad Meithrin, neu'n cael ei redeg yn uniongyrchol gan y Mudiad Meithrin. O'r saith darparwr cofrestredig, mae pump wedi'u cydleoli ar yr un safle â'r ysgol ac mae dau wedi eu lleoli yn y gymuned leol. Mae pob un o'r cylchoedd chwarae hyn hefyd yn cael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol i gynnig addysg rhan amser i blant tair oed, a elwir yn lleol yn 'Hawl Bore Oes'. Mae'r ddau ffactor yn gryfder wrth sicrhau bod bron pob plentyn yn trosglwyddo o ddarpariaeth cylch chwarae Cymraeg i mewn i ddosbarthiadau meithrin yr ysgol yn y sector cyfrwng Cymraeg. Mae un o'r grwpiau mwyaf diweddar i gael ei sefydlu, Cylch Garden City, sy'n union ar y ffin â Lloegr, wedi tyfu o ddarpariaeth Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg i ddechrau, ac wedi dod yn ddarparwr Hawl Bore Oes o fewn y deunaw mis diwethaf. Er ei bod yn ardal Seisnigaidd iawn, mae'r Cylch wedi anfon ei ychydig o blant cyntaf i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd newydd agor yng Nglannau Dyfrdwy yn Shotton ar gyfer dosbarth meithrin, ac felly bydd yn flaenoriaeth barhaus y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn i gynyddu niferoedd y Cylch hwn sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg er ei fod yn bellach i ffwrdd na'r ysgol gynradd cyfrwng Saesneg agosaf, ac nid yw polisi cludiant y Sir yn darparu cymorth nes bod plant mewn addysg llawn amser.

Mae strategaeth Sir y Fflint i gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 7 oed yn un tymor hir, sy'n canolbwyntio ar rieni yn dewis y llwybr addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant ar ddechrau eu taith addysgol. Mae'r dull hwn yn dibynnu ar ddarparu gwybodaeth o ansawdd i rieni newydd am fanteision cael eu plant yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, hyd yn oed os nad yw rhieni yn siarad Cymraeg eu hunain. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ddefnyddio ystod o strategaethau a gweithio'n effeithiol gyda'i bartneriaid allweddol i ddarparu gwybodaeth o ansawdd i rieni am y gwasanaethau teulu / blynyddoedd cynnar hyn sydd ar gael ar draws yr awdurdod, i gefnogi eu hymgysylltiad â'r ddarpariaeth iaith Gymraeg. Dim ond drwy helpu rhieni i wneud dewis gwybodus, trwy wneud gwasanaethau cyn-ysgol Cymraeg o safon uchel yn hygyrch a mynd i'r afael ag unrhyw gamsyniadau neu gael gwared ar rwystrau posibl, y bydd mwy o rieni Saesneg eu hiaith yn ystyried addysg Gymraeg ar gyfer eu plant. Yn yr un modd, mae'n hanfodol bod rhieni o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith yn cydnabod gwerth bod yn ddwyieithog yn y byd heddiw ac yn anfon eu plant i'r system cyfrwng Cymraeg.

Er mwyn cyflawni'r strategaeth tymor hir hon, bydd Cyngor Sir y Fflint yn parhau i weithio'n arloesol ac yn effeithiol gyda phartneriaid allweddol megis Menter Iaith Sir y Fflint, Mudiad Meithrin, Dechrau'n Deg, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a'r Bwrdd Iechyd lleol, i ddarparu gwybodaeth o ansawdd i rieni am wasanaethau Cymraeg lleol. Enghraifft ardderchog o'r dull ar y cyd hwn oedd datblygu llyfryn rhieni gyda'r Fenter Iaith a Mudiad Meithrin ar fanteision bod yn ddwyieithog drwy addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r daflen hon yn cael ei dosbarthu mewn digwyddiadau lleol, tynnwyd sylw ato yn Eisteddfod yr Urdd a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Sir y Fflint, ac mae wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Targed yn y cynllun hwn fydd canfod ffyrdd o ymestyn cyrhaeddiad y llyfryn hwn drwy ymgysylltu â gwasanaethau iechyd lleol ar gyfer plant a theuluoedd.

Mae Polisi Derbyn y Cyngor a gwybodaeth ar ei wefan yn nodi'n glir bod yr awdurdod yn cynnig addysg gynradd ac uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n cynnwys y llyfryn a nodwyd uchod. Mae'r clwstwr ysgolion cyfrwng Cymraeg, a arweinir gan Ysgol Maes Garmon, wedi cynhyrchu canllaw defnyddiol i rieni ar yr ystod o ddarpariaeth ar draws yr awdurdod, sydd hefyd ar y wefan. Mae gan sefydliadau Cymraeg eraill megis Menter Iaith a Mudiad Meithrin ddolenni oddi ar eu gwefan i'r adran hon o wefan Cyngor Sir y Fflint, fel y gall rhieni gael gafael ar wybodaeth am ddewis addysg cyfrwng Cymraeg. Mae rhywfaint o dystiolaeth y bydd ychydig o deuluoedd sy'n symud i Sir y Fflint o Loegr yn ystyried addysg cyfrwng Cymraeg, ac felly bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod gwybodaeth gadarnhaol am hyn ar gael drwy ei wefan a thrwy alwadau i swyddogion. Yn gyfreithiol mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am y broses dderbyn. Fodd bynnag, mae pob un o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y sir â rhan gadarnhaol i'w chwarae wrth annog teuluoedd yn eu hardaloedd i ddewis addysg Gymraeg, ac mae llawer wedi bod yn rhagweithiol wrth gynnal diwrnodau hwyl a digwyddiadau eraill i hyrwyddo hyn.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cwblhau Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ac Arolygon Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg yn unol â'r rheoliadau, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ar gyfer anghenion y dyfodol. Cafodd yr arolwg galw am addysg Gymraeg diwethaf ei gynnal yn 2013 a defnyddiwyd y data i greu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn llwyddiannus yn ardal Shotton i ymateb i'r galw lleol. Cyflawnwyd hyn drwy agor safle ychwanegol Ysgol Croes Atti, y Fflint, sef Glannau Dyfdrwy, ym mis Medi 2014. (Gweler isod am fwy o wybodaeth). Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn cynnal yr arolwg eto er mwyn asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd eraill yn y sir, i lywio cynllunio yn y dyfodol o amgylch rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif. Darparwyd gwybodaeth yn ddiweddar drwy'r arolygon diwygiedig am alw am addysg iaith Gymraeg (Mehefin 2017), bydd Sir y Fflint yn rhannu hyn gyda'r Fforwm hwn ac yn gwneud dadansoddiad gyda'r Mudiad Meithrin am eu gallu i gynyddu'r amrediad o ddarpariaeth cyn ysgol mewn ardaloedd lle'r ymddengys y mae'r galw mwyaf.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn weithredwr buan o gynllun peilot Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu 30 awr o ofal plant/addysg gynnar am ddim. Er bod hawliad plant yn seiliedig ar hyn o bryd ar nifer cyfyngedig o wardiau yn ystod y cam peilot cychwynnol hwn, gall rhieni ddewis derbyn y cynnig mewn unrhyw leoliad cymeradwy, yn cynnwys y rhai hynny sy'n dymuno cael mynediad at y cynnig hwn drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod y cam cynnar hwn o'r peilot, mae 10 lleoliad cyfrwng Cymraeg wedi'u cofrestru i ddarparu'r cynnig, a hyd yn hyn mae 77 o blant wedi cael mynediad at y cynnig, ond mae'r Cyngor yn disgwyl i'r ffigwr hon gynyddu wrth i'r peilot gael ei ymestyn.

Yn Sir y Fflint, mae hwyrddyfodiaid i'r sector cyfrwng Cymraeg o dan saith oed yn cael eu gosod yn uniongyrchol yn y dosbarth Cyfnod Sylfaen priodol ar gyfer eu hoedran, gan fod gan yr awdurdod ddull 'trochi' ar gyfer dysgwyr 3-7 oed ym mhob ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae mwyafrif helaeth y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg beth bynnag ac felly mae hwythau hefyd yn newydd i'r iaith. Mae dull strwythuredig a blaengar i ddysgu Cymraeg wrth i'r plant hyn symud trwy eu blynyddoedd Sylfaen.

Pan fydd hwyrddyfodiaid yn cyrraedd ysgol gynradd yng Nghyfnod Allweddol 2, mae'r awdurdod wedi datblygu rhaglen iaith 10 wythnos ddwys sy'n cael ei darparu yn yr ysgol gan aelod o staff â'r sgiliau priodol, sydd wedi'i hyfforddi a'i gefnogi gan aelod o Dîm Ymgynghorol y Gymraeg yr Awdurdod Lleol. Mae'r rhaglen hon yn cael ei chyflawni o fewn ysgol y plentyn ei hun, fel eu bod yn dysgu'r iaith wedi'u hamgylchynu gan eu cyfoedion ac amgylchedd cyfarwydd, yn hytrach na mynychu canolfan arbenigol mewn mannau eraill. Mae'r rhaglen hon wedi profi'n llwyddiannus iawn ac yn gost effeithlon gan nad yw nifer o hwyrddyfodiaid i Sir y Fflint yn gwneud model canolfan trochi yn ariannol hyfyw. Mae hefyd yn adeiladu gallu tymor hir o fewn yr ysgol i ddelio â hwyrddyfodiaid yn y dyfodol. Yn CA3, mae eisoes rhaglen drochi wedi'i chynllunio'n bwrpasol i ddisgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n dewis trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg (Trochi), felly byddai unrhyw hwyrddyfodiad i'r cyfnod hwn yn cael eu cynnwys yn y rhaglen hon.

Mae Cyngor Sir y Fflint angen sicrhau bod nifer digonol o leoedd ysgol o'r math cywir (a fyddai'n cynnwys cyfrwng Cymraeg), yn y lleoliadau cywir. Nid yw hyn yn syml gan fod yna nifer fawr o leoedd gwag mewn ysgolion mewn rhai ardaloedd yn y sir, tra bod ardaloedd eraill ddim â digon o leoedd i ateb y galw lleol. Mewn ardaloedd eraill, mae poblogaethau ysgol yn cael eu cynnal gan blant a phobl ifanc o'r tu allan i'r ardal leol

trwy ddewis rhieni. Mae'r angen i gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy'n heneiddio a'r isadeiledd ategol yn anghynaladwy yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Mae'r Cyngor, wrth ffurfio ei flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi cyfalaf, yn cyfeirio at bolisïau cenedlaethol a lleol e.e. cynnal yr iaith Gymraeg, Derbyniadau, Cludiant a Chynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol); data demograffig; data rheoli asedau yn ymwneud ag addasrwydd a chyflwr a rhagamcanion disgyblion i ffurfio blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi cyfalaf, gan gynnwys y defnydd o gyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif a chyllid moderneiddio ysgolion y Cyngor ei hun.

Mewn perthynas â'r sector uwchradd cyfrwng Cymraeg, mae gan Ysgol Maes Garmon gapasiti o 711 gyda 509 o ddisgyblion (Medi 2016) a lleoedd heb eu llenwi yn 28%. Yn y cyfnod cyfrwng Cymraeg cynradd, mae'r data fel a ganlyn (yn seiliedig ar ddisgyblion llawn amser ac eithrio Meithrin):

- Mae gan Ysgol Gymraeg Mornant gapasiti o 81 gyda 37 o ddisgyblion (Medi 2016) a lleoedd heb eu llenwi yn 54%.
- Mae gan Ysgol Terrig, Treuddyn gapasiti o 93 gyda 46 o ddisgyblion (Medi 2016) a lleoedd heb eu llenwi yn 51%.
- Mae gan Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon gapasiti o 256 gyda 191 o ddisgyblion (Medi 2016) a lleoedd heb eu llenwi yn 25%.
- Mae gan Ysgol Glanrafon, yr Wyddgrug gapasiti o 287 gyda 292 o ddisgyblion (Medi 2016) a lleoedd heb eu llenwi yn -2%.
- Mae gan Ysgol roes Atti, y Fflint, gapasiti o 237 gyda 217 o ddisgyblion (Medi 2016) a lleoedd heb eu llenwi yn 8%.

Ym Medi 2016 ar draws y sector ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae 1665 o leoedd i ddisgyblion, gyda 1292 o ddisgyblion ar y gofrestr a lleoedd heb eu llenwi yn rhedeg ar 22%. Problem Sir y Fflint yw gormod o leoedd dros ben yn y cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, yn hytrach na diffyg capasiti. Mae cyfradd genedigaethau byw yn Sir y Fflint wedi bod ar duedd cyson ar i lawr ers 2010, lle'r oedd 1808 o enedigaethau byw, o'i gymharu â 1623 yn 2014. Mae rhagolygon niferoedd disgyblion yn dangos y bydd niferoedd disgyblion yn gostwng mewn rhai ardaloedd, gyda chynnydd wedi'i ragweld mewn mannau eraill. Yn seiliedig ar niferoedd cyfredol ac arfaethedig, a methodoleg y cytunwyd arno ar gyfer cyfrifo nifer disgyblion wedi'i derbyn gan Lywodraeth Cymru, rhagwelir y bydd niferoedd disgyblion yn Ysgol Maes Garmon, Ysgol Mornant, Ysgol Croes Atti ac Ysgol Terrig yn codi ychydig dros y pum mlynedd nesaf, tra rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn Ysgol Glanrafon ac Ysgol Gwenffrwd yn disgyn. Rhagwelir y bydd niferoedd disgyblion cyffredinol yn y sector cyfrwng Cymraeg yn 2021 o gwmpas 1454, gan adael tua 13% o leoedd heb eu llenwi ar draws y sector, yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru o 10% o leoedd dros ben.

Mewn ymateb i'r galw lleol am addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Shotton, roedd yr awdurdod lleol yn gallu defnyddio adeilad ysgol a oedd yn rhydd oherwydd cyfuniad / adeilad newydd yn y sector cynradd cyfrwng Saesneg, i greu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ychwanegol. Mae'r safle hwn yn cael ei adnabod fel Glannau Dyfrdwy sydd o dan arweinyddiaeth a llywodraethu Ysgol Croes Atti, sy'n gweithredu fel safle ychwanegol i'r brif ysgol yn y Fflint, ychydig o dan bedair milltir i ffwrdd. Cafodd y datblygiad cyffrous hwn ei sicrhau gan gydweithio effeithiol rhwng swyddogion yr awdurdod lleol, y Pennaeth a Chorff Llywodraethol Ysgol Croes Atti ac agorodd ei drysau i ddisgyblion oedran dosbarth derbyn a meithrin ym mis Medi 2014. Y bwriad yw derbyn disgyblion i ddosbarth blynyddoedd cynnar ac adeiladu'r boblogaeth yn raddol o'r gwaelod i fyny. Mae'r Mynediad at y Feithrinfa wedi bod yn gadarnhaol - dechreuodd 10 o ddisgyblion yn 2014, 17 yn 2015 a chofrestrodd 15 o ddisgyblion ym mis Medi. Er cafwyd rhywfaint o ailddosbarthu disgyblion meithrin rhwng safleoedd y Fflint a Shotton, yn seiliedig ar gyfeiriadau cartref y disgyblion, dangosodd tystiolaeth gan rieni a gyfwelwyd gan Estyn fel rhan o adolygiad thematig diweddar o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, pe na bai'r ddarpariaeth newydd heb ei hagor yn Shotton, byddai nifer o'r disgyblion hynny wedi cael eu colli i'r sector cyfrwng Saesneg.

Mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi £101,840 i wella isadeiledd adeilad Glannau Dyfdrwy cyn ei drosglwyddo i Gorff Llywodraethol Croes Atti, ac wedi ymrwymo i gefnogi costau cyfalaf a refeniw y tu allan i'r fformiwla cyllido arferol hyd nes y bydd y ddarpariaeth newydd yn profi i fod yn gynaliadwy. Mae ymrwymiad a brwdfrydedd y Pennaeth a'r llywodraethwyr wedi bod yn ffactor allweddol o ran creu'r ddarpariaeth newydd hon a thynnu disgyblion o ardal sydd yn draddodiadol yn un Saesneg yn bennaf. Mae gwreiddio ac ymestyn y ddarpariaeth hon yn Shotton i gynyddu nifer y disgyblion yn y sector cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd datblygu rhagor o

ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn rhannau eraill o'r Sir os yw'r ymatebion i'r arolwg presennol yn dangos fod galw am hynny yn cael ei ystyried fel rhan o unrhyw strategaeth moderneiddio ysgolion yn y dyfodol.

Mae cyfraniadau Adran 106 sy'n gysylltiedig â datblygiadau tai newydd o fewn y Cyngor yn gysylltiedig â'r ysgolion agosaf, ac yn cael eu neilltuo'n benodol ar eu cyfer, gyda'r gwariant hwnnw wedi'i gyfyngu i'r meini prawf a nodir yn y cytundeb cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r datblygiad penodol. Gall cytundebau fod ar ffurf cyfraniadau ariannol neu barseli o dir wedi'u clustnodi o fewn datblygiadau. Mae'r Cyngor wedi cael Cytundebau S106 neu mae cytundebau dan ystyriaeth mewn perthynas ag Ysgol Glanrafon ac Ysgol Croes Atti gyda'r sector ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mewn ymateb i'r cynnydd yn niferoedd disgyblion Ysgol Glanrafon, darparwyd dosbarth symudol ym mis Medi 2015 i ddarparu lle dros dro i reoli poblogaeth gynyddol yr ysgol. Mae cynllunio hirdymor ar y gweill er mwyn rheoli'r niferoedd yn Ysgol Glanrafon a bydd canlyniadau'r arolwg galw sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd, y broses cynllunio busnes ar gyfer Ysgolion yr 21G a chynlluniau moderneiddio ysgolion y dyfodol yn dylanwadu ar hyn.

Yn ôl Canllawiau Llywodraeth Cymru 'Diffinio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (2007), dim ond yn y canlynol y mae gan Sir y Fflint ysgolion:-
Categori 1 - ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg
Categori 1 - ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg
Categori 5 - ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf
Categori 4 - ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf

Cyflwynodd Cyngor Sir y Fflint ei Gynllun Amlinellol strategol ar gyfer rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B ym mis Gorffennaf, ac yn aros am adborth gan Lywodraeth Cymru. Mae Cynllun Amlinellol Strategol wedi'i gysylltu'n glir â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor, ac yn canolbwyntio ar gyflawni ateb parhaol i'r diffyg capasiti yn Ysgol Glanrafon a'r materion gofod gwael yn Ysgol Croes Atti, gan ddangos dymuniad y Cyngor i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i'r Cyfrwng Cymraeg, ac yn cysylltu â'r Strategaeth Iaith Gymraeg Genedlaethol. Mae gofyniad i barhau i fuddsoddi yn y sector hwn, ac felly, mae gweddill yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn debygol o gael eu cynnwys mewn bandiau'r dyfodol o raglen ysgolion yr 21ain ganrif.

Mae'r Cyngor yn ceisio'n barhaus i gael ffyrdd arloesol i gynyddu nifer yr unigolion sy'n manteisio ar yr iaith Gymraeg yn rhwydwaith yr ysgol. Mae gwaith i'w wneud o hyd i berswadio rhai rhannau o'r gymuned iaith Gymraeg leol bod darpariaeth ffrwd ddwyieithog yn fodel derbyniol yn Sir y Fflint gan ei fod yn cael ei dderbyn yn eang mewn Awdurdodau Lleol yn y rhanbarth ac ar draws Cymru. Byddai creu modelau darpariaeth amgen yn rhoi dewisiadau amgen hyfyw a gallai gefnogi ardaloedd lle nad yw'r galw'n ddigonol i sefydlu ysgol newydd neu gefnogi ysgol leol a ystyrir yn rhy fach i fod yn gynaliadwy. Felly, fel rhan o'i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig ar gyfer 2017-2020, gyda'r targed heriol o gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, bydd Sir y Fflint yn cynnal ymgynghoriad gyda phob un o'i ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg yn ystod y flwyddyn academaidd 2017-2018 er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r model categoreiddio iaith a phrofi'r archwaeth a'r capasiti i ysgolion ystyried newid eu statws iaith, yn seiliedig ar y lefel o Gymraeg a ddefnyddir fel iaith addysgu. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yna'n sail i unrhyw gynlluniau yn y dyfodol ar gyfer newidiadau i broffil categoreiddio iaith ysgolion Sir y Fflint.

Canlyniad 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.

Sefyllfa a thargedau cyfredol Sir y Fflint ar gyfer y tair blynedd nesaf yn ymwneud â nifer y dysgwyr blwyddyn naw sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf) yn seiliedig ar ddata cyfrifiad ysgolion Medi 16.

Y Sefyllfa Gyfredol: (Bl 9 cyfredol)	2017/2018 (Bl 8 cyfredol)	2018/2019 (Bl 7 cyfredol)	2019/2020 (Bl 6 cyfredol)
5.6%	**5.5%**	**5.6%**	**7.4%**

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn byddwn yn:

- Parhau i fanteisio ar bob cyfle, gan weithio gyda phartneriaid allweddol, i hyrwyddo dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg fel y llwybr i fod yn gwbl rugl yn y Gymraeg e.e. Mudiad Meithrin, yr Urdd.
- Sicrhau bod dilyniant ieithyddol disgyblion o grwpiau cyn-ysgol i mewn i ddosbarthiadau meithrin a derbyn yr ysgol, a rhwng addysg gynradd ac uwchradd o fewn y sector cyfrwng Cymraeg.
- Cryfhau trefniadau gweithio'r consortiwm rhwng yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint i sicrhau dilyniant.
- Datblygu'r rhaglen Drochi ymhellach yn Ysgol Maes Garmon, ac ymgysylltu'n fwy gweithredol ag ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i dargedu disgyblion Blwyddyn 4/5/6 i newid i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Datganiad Ategol:

Fel rhan o'i strategaeth tymor hir i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith, mae Sir y Fflint yn monitro'r cyfraddau trosglwyddo yn ofalus ar bob pwynt pontio ar daith addysgol plentyn drwy'r sector cyfrwng Cymraeg ac wedi ymyrryd pan oedd yn ymddangos fod cyfraddau trosglwyddo wedi disgyn e.e. wedi annog gweithgareddau â ffocws penodol drwy'r Urdd lleol i hyrwyddo addysg uwchradd Gymraeg a chyfrwng Cymraeg. Nod yr awdurdod yw sicrhau bod pob plentyn sy'n mynd i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn cwblhau eu haddysg mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Mae cael cysylltiadau agos iawn rhwng y cylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg naill ai ar safleoedd ysgolion neu gerllaw o fewn y gymuned leol, yn annog cyfraddau da iawn o symud ymlaen i ddosbarthiadau meithrin yr ysgol. Mae darparu gofal cofleidiol yn y grwpiau hyn hefyd yn cefnogi rhieni sy'n gweithio, pan fydd y cynnig addysg feithrin ond yn rhan amser ac yn aml gall fod yn rhwystr i gyfranogiad llawn. Gan fod bob Cylch yn darparu addysg gynnar rhan amser i blant tair oed cyn derbyniadau meithrin, (Hawl Bore Oes) mae cysylltiadau cryf iawn rhwng swyddogion Mudiad Meithrin lleol ac Athrawon Ymgynghorol Hawliau Bore Oes. Mae Mudiad Meithrin yn cael eu cynrychioli ac yn cymryd rhan weithredol ar y Bartneriaeth Gofal Plant a Datblygu Blynyddoedd Cynnar statudol a'r Bwrdd Partneriaeth Hawliau Bore Oes, gan sicrhau llais cryf ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a pherthynas waith ardderchog gyda'r awdurdod lleol. Mae'r cydweithio llwyddiannus yn helpu i ddarparu llwybr di-dor ar gyfer rhieni a'u plant i symud o'r cyfnod cyn-ysgol Cymraeg i ddarpariaeth addysg gynnar Cymraeg. Gan fod pob un o ysgolion cyfrwng Cymraeg cynradd Sir y Fflint yn ysgolion cynradd cyfunol, ac nid yn fabanod a phlant iau ar wahân, nid oes unrhyw ostyngiad yn y cyfraddau trosglwyddo rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, sy'n aros yn 100%.

Mae dadansoddiad o'r cyfraddau dilyniant o'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i'r ysgol uwchradd dros gyfnod o amser, wedi dangos bod y mwyafrif llethol o ddisgyblion yn aros o fewn y system iaith Gymraeg, ond mae rhai yn cael eu colli oherwydd amrywiaeth o resymau: (Gweler Atodiad 1)

- teulu'n symud oherwydd ymrwymiadau gwaith
- rhai disgyblion ym mhen gogleddol yr awdurdod yn symud i Ysgol Uwchradd Prestatyn (cyfrwng Saesneg) yn hytrach nag Ysgol Glan Clwyd (cyfrwng Cymraeg)
- nifer fach iawn o ddisgyblion yn trosglwyddo i'r sector preifat (cyfrwng Saesneg) dros y ffin
- teuluoedd teithwyr yn tynnu eu plant o addysg uwchradd ar y pwynt trosglwyddo

I lawer o ddisgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, Ysgol Maes Garmon yn yr Wyddgrug yw eu hysgol uwchradd o ddewis. Fodd bynnag, ym mhen gogleddol yr awdurdod, mae nifer o ddisgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Glan Clwyd yn Sir Ddinbych felly mae hyn yn dal i olygu eu bod yn cael eu cadw o fewn y sector cyfrwng Cymraeg. Y gobaith yw y bydd y ffederasiwn diweddar rhwng Ysgol Mornant (ar y dde ar y ffin â Sir Ddinbych ac yn agos i Brestatyn) ac Ysgol Maes Garmon yn yr Wyddgrug, yn annog mwy o ddisgyblion i aros o fewn addysg cyfrwng Cymraeg a dewis mynychu unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Sir y Fflint. Fodd bynnag, fel yn yr holl brosesau derbyn, mae rhieni'n parhau i allu mynegi dewis am le mewn unrhyw ysgol uwchradd.

Mae Ysgol Maes Garmon yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi pontio o addysg gynradd i addysg uwchradd, gan gynnwys gwersi blasu Dylunio a Thechnoleg, Celf ac Addysg Gorfforol ym Mlwyddyn 5. Bydd

y ddarpariaeth hon yn cael ei hymestyn yn ystod haf 2017 i gynnwys disgyblion Blwyddyn 4. Mae'r cwrs preswyl 5 diwrnod yng Nghanolfan yr Urdd yn Llangrannog i'r disgyblion hynny sy'n pontio i Ysgol Maes Garmon yn rhoi sylfaen wych i ddechrau Cyfnod Allweddol 3. Roedd astudiaeth annibynnol allweddol ynghylch pontio yn 2014 wedi canfod bod y trefniadau hyn yn hynod fuddiol i ddisgyblion a rhieni.

Gan fod yr holl ddisgyblion oedran uwchradd yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint yn mynychu Ysgol Maes Garmon, mae cyfradd trosglwyddo 100% rhwng Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4.

Gan mai dim ond ysgolion cyfrwng Cymraeg llawn neu ysgolion cyfrwng Saesneg llawn sydd gan Sir y Fflint, nid oes cyfle i gynyddu nifer y disgyblion i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo, drwy dargedu ysgolion dwyieithog neu ffrydiau Cymraeg, yn wahanol i rannau eraill o Gymru lle mae economi mwy cymysg o ddarpariaeth. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod lleol yn cymryd camau cryfach i hyrwyddo'r rhaglen 'Drochi' yn gynharach i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, i ddeall manteision addysg cyfrwng Cymraeg a'r modd y byddant yn fwy rhugl. Mae hyn yn y cyfnod cynnar o ddatblygiad a bydd yn brosiect ar y cyd rhwng Cyngor Sir y Fflint, Ysgol Maes Garmon, yr Urdd a Chanolfan Iaith Camu yng Ngholeg Cambria. Y bwriad yw cyflwyno'r prosiect hwn yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf yn 2018 i baratoi ar gyfer y rownd derbyniadau nesaf i ysgolion uwchradd, yn nhymor yr hydref. Y gobaith yw, trwy ymgysylltu â disgyblion ym Mlwyddyn 4 a Blwyddyn 5, y bydd y disgyblion a'u rhieni yn sylweddoli bod addysg cyfrwng Cymraeg yn dal i fod yn opsiwn ar eu cyfer, er eu bod wedi dechrau yn yr ysgol cyfrwng Saesneg.

Byddai canlyniadau Cymraeg ail iaith sy'n gwella'n gyflym iaith yn y Cwricwlwm Cenedlaethol Lefel 4 (lefel ddisgwyliedig ar gyfer plant 11 oed) a Lefel 5 (lefel uwch na'r disgwyl ar gyfer plant 11 oed) ar draws ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg Sir y Fflint, yn awgrymu bod disgyblion â'r potensial ieithyddol i symud o un sector i'r llall a bod yn llwyddiannus iawn yn eu haddysg uwchradd. Yn ddiweddar, mae Ysgol Maes Garmon wedi bod yn destun rhaglen deledu lwyddiannus iawn, 'OMG - Ysgol Ni', a oedd yn dangos sut mae disgyblion yn cael eu cefnogi drwy'r cyfnod pontio ieithyddol hwn, felly'r gobaith yw y gellir adeiladu ar hyn yn y blynyddoedd i ddod drwy gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael mynediad i Drochi.

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn y pynciau astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.

Isod mae sefyllfa bresennol Sir y Fflint a thargedau sy'n ymwneud â chanran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (cymwysterau iaith gyntaf), yn ymwneud â disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer:-

a) o leiaf dau gymhwyster pellach Lefel 1 neu Lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg.
b) o leiaf pum cymhwyster pellach Lefel 1 neu Lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg.

* Noder bod yr holl ddata yma yn ymwneud ag un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, Ysgol Maes Garmon. Nid oes unrhyw fath arall o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint e.e. dwy ffrwd.

	Y sefyllfa bresennol 2016/17	2017/2018	2018/2019	2019/2020
a) Astudio o leiaf 2 gymhwyster Lefel 1 neu 2	89 disgybl	62 disgybl	86 disgybl	93 disgybl
b) Astudio o leiaf 5 cymhwyster Lefel 1 neu 2	89 disgybl	62 disgybl	86 disgybl	93 disgybl
c) Cohort eilaidd yn YMG fel canran o boblogaeth Bl 11 Sir y Fflint yn seiliedig ar ddata cyfrifiad Medi 16	5.5%	3.9%	5.6%	5.5%

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn byddwn yn:

- Parhau i wella ansawdd yr addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr holl feysydd pwnc drwy ddatblygiad proffesiynol staff trwy gysylltu â'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol, GwE, a thrwy gymryd rhan weithredol mewn rhwydweithiau proffesiynol gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn y rhanbarth, er mwyn sicrhau safonau uchel ar draws yr ystod o ddangosyddion CA4 gan fod ysgolion sy'n perfformio'n dda yn denu disgyblion.
- Sicrhau bod tracio disgyblion a systemau gosod targedau yn gywir a chadarn i osod y disgwyliadau uchaf ar gyfer canlyniadau dysgwyr a sicrhau bod ymyriadau ar gyfer dysgwyr sydd mewn perygl o beidio â chyflawni lefelau disgwyliedig yn amserol, yn briodol ac wedi eu gwerthuso i sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar ganlyniadau a gyflawnwyd.
- Parhau i sicrhau bod y nifer uchaf o ddisgyblion cynradd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn parhau i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.
- Sicrhau bod y ffederasiwn rhwng Ysgol Maes Garmon ac Ysgol Mornant yn llwyddiannus ac yn sicrhau niferoedd uwch o ddisgyblion cynradd sy'n trosglwyddo rhwng y ddwy ysgol ym Mlwyddyn 7.
- Cynyddu nifer y disgyblion cynradd W2L sy'n trosglwyddo drwy'r rhaglen Trochi i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Datganiad Ategol:
Mae gan Sir y Fflint un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, Ysgol Maes Garmon. Mae pob dysgwr Cyfnod Allweddol 4 yn dilyn Llwybr Dysgu wedi'i anelu at 5 neu fwy o gymwysterau ar Lefel 1 neu Lefel 2. Mae 100% o ddysgwyr (CA3/4/5) yn ymgymryd â chymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2017, yn seiliedig ar ddata dros dro a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru, roedd 100% o ddisgyblion yn Ysgol Maes Garmon wedi cyflawni'r dangosydd Lefel 1 (5 TGAU A*-G) a 72.7% yn cyflawni'r dangosydd Lefel 2 (5 TGAU A*-C). Mae cynnal cwricwlwm eang mewn cyfnod o lymder yn her ac mae angen dulliau newydd o gydweithio. Oherwydd lleoliad yr ysgol, mae cydweithio ar lefel CA4 ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn anodd iawn gan fod amser teithio yn gallu effeithio'n sylweddol ar amser cyswllt.

Yn CA5, gall trefniadau cydweithredol fod yn heriol i'w cyflawni a'u cynnal. O Fedi 2017, roedd trefniant blaenorol disgyblion Ysgol Maes Garmon i deithio i Ysgol Morgan Llwyd wedi dod i ben yn raddol ar gyfer lefel A mewn Drama ac Astudiaethau Cyfryngau. Mae'r trefniant cydweithredol mwyaf diweddar i fyfyrwyr Ysgol Maes Garmon fynychu Ysgol Glan Clwyd i astudio'r pynciau hyn. Gwneir defnydd helaeth o gyfleusterau cynadledda fideo yn Ysgol Maes Garmon sy'n caniatáu i diwtoriaid Coleg Meirion Dwyfor gyflwyno cyrsiau lefel A mewn Cymdeithaseg, Seicoleg a'r Gyfraith trwy gyfrwng y Gymraeg, ac o Fedi 2017 fe ehangwyd ar hyn i gynnwys cwrs lefel A mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth. Nid oes cysylltiad ar hyn o bryd gyda Choleg Cambria yn CA5.

Mae 100% o'r holl ddysgwyr yn Ysgol Maes Garmon yn astudio ac yn eistedd arholiadau allanol trwy gyfrwng y Gymraeg. Yr her yw cynyddu nifer y disgyblion yn yr ysgol yn gyffredinol ac mae'n rhaid i hyn gael ei gyflawni drwy wella canran ymateb cyfrwng Cymraeg ar lefel ysgol gynradd a'r disgyblion hynny wedyn yn trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Y strategaeth arall yw cynyddu niferoedd y disgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn ymuno â'r cwrs Trochi i Ysgol Maes Garmon ar gyfer Blwyddyn 7. Bydd y math hwn o gynnydd ond yn cael ei sicrhau os gall pobl ifanc a rhieni fod yn argyhoeddedig bod tystiolaeth gadarn o'r posibilrwydd o ehangu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant pellach neu gyflogaeth os gall unigolyn gynnig rhuglder yn y Gymraeg.

Mae gwybodaeth leol yn awgrymu bod angen cynyddol am siaradwyr Cymraeg yn y sectorau blynyddoedd cynnar a gofal ac mewn gwasanaethau cyhoeddus e.e. addysg, iechyd, yr heddlu, y gwasanaeth carchardai ac ati Pe gallai cyrsiau priodol gael eu nodi a'u hariannu trwy ddull partneriaeth rhwng y darparwyr ôl un ar bymtheg yn y rhanbarth gogledd ddwyreiniol gan gynnwys Coleg Cambria, byddai'r rhain yn creu llwybrau gyrfa ar gyfer pobl ifanc ac yn eu cadw yn lleol ar gyfer y farchnad waith lle mae bwlch mewn sgiliau iaith Gymraeg ar hyn o bryd. Byddai hyn hefyd yn cynyddu'r cyfle i weithio gyda grwpiau fel yr Urdd neu'r Mudiad Meithrin i ddarparu profiad gwaith sy'n berthnasol i bobl ifanc i gefnogi eu hastudiaethau academaidd a chodi eu dyheadau i ddatblygu gyrfa lle byddai eu sgiliau iaith Gymraeg yn ased gwirioneddol. Mae hwn yn gyswllt

mor amlwg â'r blaenoriaethau yn Neilliant 7 felly blaenoriaeth i'r CSCA presennol fydd ymchwilio i sut y gellid cyflawni hyn.

Mae Ysgol Maes Garmon wedi bod yn cymryd rhan mewn prosiect iaith a elwir yn PCAI sydd wedi'i gynllunio i gynyddu defnydd iaith pobl ifanc yn y sector uwchradd. Mae cyllid ar gyfer y prosiect hwn yn y dyfodol yn awr yn mynd i gael ei gyfeirio drwy awdurdodau lleol ac mae ganddo ddau amcan allweddol - i adeiladu ar waith blaenorol y prosiect a sicrhau ei fod yn cysylltu i mewn ac yn adeiladu ar y rhaglen Siarter Iaith mewn ysgolion cynradd er mwyn cynnig parhad o gefnogaeth i ddisgyblion yn ystod eu taith addysgol. (Gweler Deilliant 5 am wybodaeth bellach ar Siarter Iaith). Bydd hon yn flaenoriaeth barhaus drwy'r CSCA i sicrhau bod y swm cyfyngedig o arian yn cyrraedd yr effaith fwyaf posibl ar safonau'r Gymraeg sy'n cael ei defnyddio gan bobl ifanc yn yr ysgol uwchradd.

Canlyniad 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg
(Tabl data estynedig i gynnwys 'lefelau uwch na'r disgwyl' i gefnogi'r canlyniad hwn)

Cymraeg Iaith Gyntaf	**Y Sefyllfa Gyfredol**	**2017/2018**	**2018/2019**	**2019/2020**
Cyfnod Sylfaen Canlyniad 5 LCW	**88.1%**	**94.2%**	**94.7%**	**95.1%**
Cyfnod Allweddol 2 Lefel 4+	**84.3%**	**96.5%**	**97.8%**	**99.2%**
Cyfnod Allweddol 3 Lefel 5+	**96.8%**	**97.8%**	**98.8%**	**99.2%**
Cyfnod Allweddol 4 Graddau A*-C	**68.9%**	**78.7%**	**79.3%**	**79.8%**

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn byddwn yn:

- Gweithio gydag ysgolion i osod targedau heriol ac uchelgeisiol ar gyfer dangosyddion disgyblion yn y Gymraeg, yn y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch na'r disgwyl (Iaith Gyntaf ac Ail Iaith).
- Ymgorffori'r Siarter Iaith yn ein hysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg gyda tharged bod pawb wedi cyflawni'r Safon Aur erbyn 2018.
- Gweithio'n agos gyda Phenaethiaid a llywodraethwyr ar draws y sector cynradd ac uwchradd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, i godi ymwybyddiaeth o strategaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, eu cyfraniad at hyn trwy Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol, ac i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y cwricwlwm sydd ar y gweill / newidiadau cymhwyster yn y Gymraeg.
- Gweithio'n agos gydag ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i gynyddu nifer y disgyblion sy'n gadael CA4 gyda gradd TGAU dda mewn Cymraeg (ail iaith), gan ymgysylltu â phartneriaid allweddol yn y Fforwm i helpu.
- Adolygu fframwaith Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg ar gyfer Sir y Fflint a datblygu cynllun gweithredu fel rhan o Gynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg wedi'i fonitro gan y Fforwm.

- Parhau i wella sgiliau'r gweithlu drwy gyflwyno'r Gymraeg iddynt i'w cefnogi i gyflawni canlyniadau uwch i ddysgwyr (gweler Canlyniad 7).
- Mynd ati i ymgysylltu â'r strategaeth ranbarthol newydd ei datblygu, i ddatblygu gweithlu i gefnogi Datblygiad o'r Gymraeg, yn enwedig yn CA3.

Datganiad Ategol:
Mae Sir y Fflint yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer dysgwyr ar draws yr holl ddangosyddion allweddol, sy'n cael eu modelu ar sefyllfa ddisgwyliedig yr awdurdod lleol o fod y 6ed uchaf yng Nghymru o ran perfformiad, yn seiliedig ar y proffil Prydau Ysgol am Ddim. Ar y cyd â GwE a Thîm Ymgynghorol y Gymraeg o fewn yr awdurdod lleol, mae ysgolion angen cymorth ychwanegol ar gyfer cyflwyno cwricwlwm y Gymraeg, a bydd datblygiad proffesiynol pellach y staff i gyflawni canlyniadau uwch ar gyfer pob dysgwr yn cael eu nodi a'u targedu. Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo hefyd i ymestyn ei bartneriaeth waith gyda sefydliadau allweddol eraill, i ddarparu cyfleoedd estynedig ar gyfer datblygu staff a gweithgareddau disgyblion gwell i gefnogi canlyniadau uwch yn y Gymraeg e.e. Mudiad Meithrin, Menter Iaith Sir y Fflint, Coleg Cambria, Prifysgol Bangor a'r Urdd.

Trwy Raglen Her a Chymorth GwE a'r model categoreiddio cenedlaethol, mae ysgolion yn cael eu targedu ar gyfer ymyriadau yn seiliedig ar eu lefel o berfformiad ac anghenion cymorth a nodwyd. Lle mae pryder ynglŷn â pherfformiad o'r Gymraeg (naill ai fel iaith gyntaf neu ail iaith) yn y sector cynradd, mae ysgolion yn cael eu cefnogi gan Dîm Ymgynghorol y Gymraeg yr awdurdod. Mae cefnogaeth ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf yn y sector uwchradd yn cael ei chyflwyno gan GwE, a gomisiynir gan Ymgynghorydd Her yr ysgol. Mae fforymau pwnc lleol ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf a Chymraeg Ail Iaith sy'n cyfarfod yn rheolaidd ar gyfer y cyfnodau cynradd ac uwchradd. Mae cefnogaeth ar gyfer Cymraeg Ail Iaith yn ysgolion uwchradd Sir y Fflint yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a tharged ar gyfer 2016-17 yw sefydlu system fwy cadarn ar gyfer darparu arweiniad ac ymyrraeth, yn enwedig yng ngoleuni'r newidiadau i'r cymhwyster Cymraeg Ail Iaith. (Gweler Canlyniad 7).

Yn seiliedig ar y data dros dro a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2016, o garfan blwyddyn 11 unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Sir y Fflint, cyflawnodd 68.9% A*-C yn y Gymraeg. Mae'r ysgol wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer cynyddu canlyniadau disgyblion dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Yn 2016, roedd 1142 allan o 1606 o ddisgyblion Blwyddyn 11 (71%) mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yr awdurdod, wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg Ail Iaith. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y disgyblion 'wedi'u haddysgu heblaw yn yr ysgol' a'r rhai mewn darpariaeth ysgolion arbenigol. O'r grŵp hwnnw, cymerodd 286 o ddisgyblion y cwrs llawn (25%) a 856 (75%) y cwrs byr. Yng ngrŵp y cwrs llawn, cafodd 80.4% o ddisgyblion raddau A*-C. Yn y grŵp cwrs byr, cyflawnodd 57.4% A*-C. Ni wnaeth 29% o ddisgyblion naill ai'r cwrs llawn neu'r cwrs byr, ond byddant wedi cael mynediad at gymwysterau iaith Gymraeg eraill e.e. NVQ. Ar ôl tynnu'r cwrs byr TGAU yn ôl o 2017, bydd yn flaenoriaeth allweddol gan y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i gefnogi ysgolion i gofrestru niferoedd uwch o ddisgyblion i'r TGAU llawn a sicrhau eu bod yn cyflawni canlyniadau da.

Ar ôl tynnu'r cwrs byr TGAU yn ôl o 2017, bydd yn flaenoriaeth allweddol gan y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i gefnogi ysgolion i gofrestru niferoedd uwch o ddisgyblion i'r TGAU llawn a sicrhau eu bod yn cyflawni canlyniadau da. Yn ystod blwyddyn academaidd 2017-18, bydd uwch swyddogion o'r awdurdod addysg ac o'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol yn ymgysylltu â phenaethiaid ysgolion uwchradd a phenaethiaid adrannau Cymraeg, drwy'r Ffederasiwn Penaethiaid a Fforwm Pwnc y Gymraeg, i ddatblygu strategaeth i gynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio TGAU Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a gosod targedau ar gyfer y tair blynedd nesaf. Bydd disgwyl i aelodau o'r Fforwm, e.e. Menter Iaith, Coleg Cambria a'r Urdd, gynnig cefnogaeth i ysgolion i'w cynorthwyo drwy ymgysylltu â disgyblion, rhieni a llywodraethwyr i hyrwyddo gwerth y Gymraeg.

Er mwyn cyflawni safonau uwch mewn Cymraeg, mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg yr awdurdod yn cyflwyno rhaglen gydlynol o gyfleoedd datblygiad proffesiynol yn lleol ac mewn partneriaeth ranbarthol gydag awdurdodau cyfagos, i athrawon a staff cefnogi ar gyfer iaith gyntaf ac ail iaith. Rhan annatod o waith y tîm yw cefnogi datblygiad asesiadau athrawon effeithiol a chadarn yn y cyfnod cynradd ac uwchradd, drwy gyfarfodydd safoni clystyrau gyda staff yr ysgol. Mae rheolwr y tîm hwn yn rhan o 'Raglen Sicrhau Asesiad Athrawon' Llywodraeth Cymru, felly'n arbenigwr yn y maes hwn. (Gweler Canlyniad 7 am ragor o fanylion).

Mae ffocws yr hyfforddiant a chymorth mewnol ar gyflawni, nid yn unig y lefelau disgwyliedig ar gyfer diwedd pob cyfnod allweddol, ond rhoi'r cyfle i gyflawni'r lefelau uwch na'r disgwyl drwy gyfleoedd dysgu mwy heriol a phen agored.

Mae'r Siarter Iaith yn cael ei hymgorffori'n dda mewn 5 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint, gyda phob un wedi cyflawni'r lefel Efydd eleni. Mae gwaith bellach ar y gweill i gael Arian, a'r targed yw y bydd pob un wedi cyflawni Aur erbyn mis Gorffennaf 2018. Dyma'r prif gyfrwng ar gyfer cynyddu safonau uwch yn y Gymraeg gyda'i ffocws ar ymestyn y defnydd o'r Gymraeg gan y disgyblion mewn cyd-destun cymdeithasol. Bydd y gofyniad i gynnwys pob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys pob gweithlu, rhiant, llywodraethwr a'r gymuned yn sicrhau ymrwymiad a pherchnogaeth eang.

Fel sir sy'n ffinio â Lloegr, gyda nifer fach o ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae ehangu ar safon sgiliau iaith dysgwyr Cymraeg ail iaith hefyd yn flaenoriaeth allweddol i gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Targed allweddol yn y cynllun hwn, felly, fydd ymchwilio a datblygu model peilot y Siarter Iaith ar gyfer ail iaith, Cymraeg Campus (fel y modelwyd yn y rhanbarth ERW) yn ystod 2016-17, gyda rhaglen yn cael ei chyflwyno yn dilyn ymlaen drwy 2018-2020.

Bydd Fframwaith Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg Sir y Fflint yn cael ei ddiwygio, a bydd cynllun gweithredu clir yn cael ei ddatblygu gyda phartneriaid allweddol i fynd i'r afael â rhai meysydd a oedd â gwendidau erbyn Rhagfyr 2017. Bydd cynnydd o'r cynllun hwn yn cael ei fonitro gan Fforwm Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg.

Mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg hefyd yn darparu ystod o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer ac ymestyn eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth ar draws pob cyfnod allweddol, e.e. ymweliadau preswyl â chanolfan yr Urdd yng Nglan Llyn, cynnal Jambori ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen, gweithio gyda'r Urdd ar Jambori ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 a datblygu gweithgareddau ar gyfer dysgwyr Cymraeg Ail Iaith sy'n fwy abl. Mae yna hefyd amrywiaeth o weithgareddau wedi'u datblygu rhwng yr Urdd, Menter Iaith a Gwasanaeth Ieuenctid yr awdurdod ac mae clybiau yn y gymuned er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n ehangach na dim ond mewn ysgolion. Bydd y cyfleoedd hyn yn parhau i gael eu gwella a'u darparu ledled Sir y Fflint.

Mae'r Urdd a Gwasanaeth Ieuenctid yr awdurdod â pherthynas waith gydweithredol gref ac yn cynnig ystod o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog ar gyfer pobl ifanc, mewn lleoliadau ysgol a'r tu allan iddynt. Mae hyn yn sicrhau cyswllt agos rhwng y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn ysgolion a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Mae'r Urdd yn cynnal nifer o glybiau a phrosiectau yn y gymuned (Adran ac Uwchadran) fel bod y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hymestyn y tu hwnt i ffiniau ysgol. Mae'r Urdd hefyd yn cynnal clybiau a gweithgareddau amser cinio o'r enw Clybiau Cinio Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, er mwyn rhoi cyfle i ddatblygu hyder wrth ddefnyddio eu sgiliau iaith fel rhan o weithgaredd llawn hwyl. Bydd y cyfleoedd hyn yn parhau i gael eu gwella a'u darparu ledled Sir y Fflint.

Rhoddodd Eisteddfod lwyddiannus iawn yr Urdd, a gynhaliwyd gan Sir y Fflint ym mis Mai 2016, a gyflawnodd rhai o'r ffigurau presenoldeb uchaf yn y cyfnod diweddar, gyfle go iawn i godi proffil yr iaith Gymraeg a'r system addysg yng Nghymru. Roedd yn darparu ysgogiad ar gyfer pob ysgol ar draws yr awdurdod i ganolbwyntio ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig trwy eu paratoadau ar gyfer y digwyddiad. Targed y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn fydd sicrhau etifeddiaeth barhaol o'r Eisteddfod o ran y canlyniadau uwch a gyflawnir gan ddysgwyr a thrwy nifer y plant sy'n dod i addysg cyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau ei ddyfodol yn Sir y Fflint a sicrhau bod mwy o blant yn dod yn oedolion dwyieithog.

Bydd codi dyheadau pobl ifanc i fod yn ddwyieithog, a'r manteision a ddaw gyda hyn i ddatblygu gyrfa, yn brif flaenoriaeth arall. Bydd Sir y Fflint yn defnyddio ei bartneriaid fel Coleg Cambria, yr Urdd a Menter Iaith i ddarparu gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o well cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer y rhai â sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle e.e. ysgolion, y bwrdd iechyd lleol, y gwasanaeth carchardai, gwasanaethau'r heddlu, y gwasanaeth tân a'r gwasanaeth ambiwlans, darpariaeth y blynyddoedd cynnar, gwasanaethau gofal ar gyfer yr henoed, llywodraeth leol a chyflogwyr lleol yn y sector preifat. Mae gan Wasanaeth Ieuenctid Integredig Sir y Fflint rôl ganolog i'w chwarae yn hyn, oherwydd natur ei darpariaeth a lefelau uchel o gysylltiad â phobl ifanc yn y sectorau Cymraeg a Saesneg ar draws yr awdurdod.

Canlyniad 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn byddwn yn:

- Comisiynu arolwg o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ADY i lywio cynllunio gwasanaethau yn 2017-18 ac adrodd i fforwm Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Parhau i gynyddu mynediad at gyngor ac ymyrraeth fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg, o'r amrywiaeth o wasanaethau arbenigol, naill ai drwy recriwtio neu ddatblygiad unigol, neu drwy ymestyn y cydweithio rhanbarthol.
- Darpariaeth allgymorth drwy Bortffolio Unedau Atgyfeirio Disgyblion i gefnogi dysgwyr i gadw eu lleoliadau prif ffrwd.
- Parhau i ddatblygu sgiliau cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol a staff mewn ysgolion, i gynyddu arbenigedd ac ymwybyddiaeth o sut orau i ddiwallu ystod eang o anghenion a gyflwynir gan ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Gweithio'n hyblyg ac yn gydweithredol gyda phlant / teuluoedd, asiantaethau partner a darparwyr i ddatblygu darpariaeth mewn ymateb i'r galw.

Datganiad Ategol:

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae pwysigrwydd datblygu gwasanaethau arbenigol dwyieithog i gefnogi hyn yn cael ei gydnabod ac mae staff yn cael eu cefnogi a'u hannog i ymgysylltu â'r cyrsiau Cymraeg a gynigir drwy'r Cyngor, yn dilyn archwiliad o sgiliau staff Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y Gymraeg yn 2015. Lle nad yw staff dwyieithog ar gael, bydd y Cyngor yn parhau i drefnu mynediad at hyn o Gynghorau cyfagos. Mae Cyngor Sir y Fflint ar hyn o bryd yn cadw llygad ar ddatblygiad y Bil Anghenion Ychwanegol Newydd wrth iddo symud drwy'r Cynulliad a bydd yn ymateb yn briodol i'r ddeddfwriaeth derfynol, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau ADY drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cynllun gweithredu penodol perthnasol i ADY a'r CSCA yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan Wasanaeth cynhwysiad y sir a bydd yn cael ei gynnwys yn y cynllun strategol hwn pan gaiff ei gyhoeddi'n derfynol ar wefan y Cyngor erbyn 1 Mehefin 2017.

Mae'r galw am ddarpariaeth arbenigol iawn drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio ac mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ymateb rhagweithiol i hyn wrth ystyried yr achosion hyn ar seiliau unigol, a gweithio gyda darparwyr i ddatblygu pecynnau priodol. Mae datblygiad y gwasanaethau isranbarthol e.e. cymorth synhwyraidd (nam ar y golwg a nam ar y clyw) wedi hwyluso mynediad i staff cyfrwng Cymraeg ar draws Sir y Fflint ac awdurdodau cyfagos. Bydd datblygu partneriaethau mwy helaeth ar draws y rhanbarth mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles, i sicrhau darpariaeth effeithiol o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn parhau i fod yn flaenoriaeth o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd y Cyngor yn comisiynu arolwg o'r ddarpariaeth o wasanaethau ADY drwy gyfrwng y Gymraeg, i nodi lle ceir darpariaeth gyfredol effeithiol, ond hefyd i nodi unrhyw ddiffygion fel y gellir rhoi sylw i hyn. Bydd hyn yn digwydd yn ystod blwyddyn academaidd 2017-18 ac adroddir yn ôl ar hyn yn y Fforwm Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg er ystyriaeth. Mae'n debygol y bydd angen datblygu darpariaeth gwasanaethau ar sail ranbarthol er mwyn bod yn gynaliadwy, oherwydd y niferoedd cymharol isel o ddisgyblion ADY sydd angen cael mynediad at wasanaethau arbenigol yn y Gymraeg, a'r adnoddau ariannol cyfyngedig sydd ar gael.

Mae gan Sir y Fflint adnodd generig ar gyfer disgyblion oed cynradd sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn seiliedig o fewn un o'i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r adnodd hwn yn darparu ar gyfer disgyblion sydd ag ystod o anghenion dysgu. Dirprwywyd cyllid i'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddarparu adnoddau ychwanegol i ddisgyblion o fewn CA3/4/5.

Mae cynnal a chadw lleoliadau ysgol o fewn ardal plentyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor, a bwriedir datblygu gwasanaeth allgymorth i gefnogi ysgolion i gwrdd ag ystod o anghenion ymddygiadol, cymdeithasol ac emosiynol. Mae pwysigrwydd argaeledd staff cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r ddarpariaeth hon yn cael ei gydnabod.

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i wella sgiliau staff mewn ysgolion i sicrhau eu bod wedi'u hyfforddi'n dda ac yn gallu ymateb i ystod eang o anghenion cyflwyno a gweithio mewn cydweithrediad â GwE i gynnig rhaglen briodol.

Mae mecanwaith cyllid dirprwyedig wedi cael ei weithredu i gefnogi ysgolion i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â darparu ac ymyrraeth briodol ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys y rheini yn y sector cyfrwng Cymraeg a bydd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn cefnogi ysgolion i gyflawni hyn.

Canlyniad 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn byddwn yn:

- Cynnal archwiliad newydd o sgiliau iaith ar draws y gweithlu yn ystod 2017-18.
- Gwella sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu yn y sectorau iaith gyntaf ac ail iaith, drwy ystod o gyfleoedd o ansawdd uchel ar gyfer datblygiad proffesiynol a ddarperir gan amrywiaeth o ddarparwyr, e.e. Tîm Ymgynghorol y Gymraeg yr Awdurdod Lleol, GwE a phartneriaid allanol gan gynnwys Prifysgol Bangor, Coleg Cambria, Mudiad Meithrin, Menter Iaith Sir y Fflint a'r Urdd.
- Targedu staff yn CA3 mewn ysgolion cyfrwng Saesneg mewn Cymraeg bob dydd a sgiliau iaith sy'n benodol i bwnc.
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o lwyfannau digidol i gefnogi darpariaeth hyfforddiant a'r defnydd o iaith mewn ysgolion e.e. Hwb, apiau Cymraeg ac ati.
- Annog pobl ifanc i ddeall y manteision ar gyfer eu datblygiad gyrfa o fod yn ddwyieithog a'u cefnogi i geisio cyfleoedd cyflogaeth yn lleol lle gallant ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg, yn enwedig mewn meysydd o alw e.e. darpariaeth blynyddoedd cynnar, y sector ysgolion a gwasanaethau gofal / iechyd.
- Gwreiddio'r cynllun Sabothol ar draws yr awdurdod i wella ansawdd yr iaith Gymraeg a ddefnyddir gan ddisgyblion a staff mewn ysgolion i sicrhau mwy o gynaliadwyedd.
- Cefnogi Penaethiaid a llywodraethwyr yn y sector Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith i flaenoriaethu datblygiad sgiliau iaith Gymraeg drwy gynnal arolwg o'u staff, eu targedu gyda datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel a monitro cynnydd drwy'r system rheoli perfformiad, i uwchsgilio'r gweithlu a chyflawni safonau uwch gan y disgyblion yn y Gymraeg (gweler Canlyniad 5).

Datganiad Ategol:

Mae Sir y Fflint yn rhoi blaenoriaeth uchel iawn ar ddarparu neu gomisiynu rhaglenni datblygiad proffesiynol o safon uchel ar gyfer ei staff mewn ysgolion ar bob lefel. Mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg yn darparu ystod o raglenni hyfforddiant penodol ar gyfer y sectorau iaith gyntaf ac ail iaith i athrawon a staff cymorth yn y cyfnod cynradd, wedi'u teilwra ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 Uwch ac Is. Dyma yw prif gynheiliad dull yr awdurdod i sicrhau gweithlu ddigon cymwys o ran iaith a chodi safonau cyflawniad disgyblion yn y Gymraeg.

Mewn datblygiad diweddar ac arloesol, mae Swyddog Cefnogi a Hyfforddi Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod Lleol, Tîm Ymgynghorol y Gymraeg a'r Mudiad Meithrin wedi gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y staff blynyddoedd cynnar mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gyfarwydd â'r patrymau iaith a ddefnyddiwyd yn grwpiau cyn ysgol y Mudiad Meithrin, fel bod dilyniant ieithyddol plant yn y man pontio a chyfradd caffael yr iaith Gymraeg yn gwella. Mynychodd pob ysgol cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint ddigwyddiad hyfforddiant arbennig y tymor hwn ac mae wedi derbyn pecyn i gefnogi'r gwaith parhaus hwn. Bydd datblygu cyfleoedd pellach fel hyn rhwng yr awdurdod lleol a phartneriaid allanol i gefnogi'r datblygiad proffesiynol y staff yn nodwedd gref o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig.

Mae trafodaethau rhwng aelodau Tîm Ymgynghorol y Gymraeg a Phenaethiaid cynradd a chwblhau Proffil Iaith Gymraeg ysgol bob dwy flynedd, yn sicrhau bod deialog gadarn rhwng yr Awdurdod Lleol a'r ysgolion mewn perthynas â safonau Cymraeg ac yn annog Penaethiaid i nodi lle mae angen datblygiad proffesiynol ar gyfer staff, er mwyn gwella eu sgiliau a'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bydd y dull hwn yn parhau ac yn ystod oes y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn, bydd Penaethiaid yn cael eu hannog i ddefnyddio'r broses rheoli perfformiad i ganolbwyntio ar y Gymraeg ac i gynnwys blaenoriaethau gwella ar gyfer y Gymraeg yn eu cynlluniau datblygu ysgol.

Bydd angen talu sylw penodol i ddatblygiad proffesiynol y staff yn y sector cyfrwng Saesneg uwchradd i baratoi ar gyfer cael gwared ar y cwrs byr TGAU mewn Cymraeg, ac i ymgorffori'r Cwrs Llawn yn gyfan gwbl o fis Medi 2017. Mae gwybodaeth gyfyngedig gan CBAC am strwythur y cymhwyster newydd hwn, gan gynnwys manylion y fanyleb a'r amser cyflwyno sydd ei angen, yn achosi pryder ymysg Penaethiaid a Rheolwyr Cwricwlwm gan fod angen iddynt fod yn ymgymryd ag ailgynllunio cwricwlwm nawr, yn barod ar gyfer mis Medi 2017. Mae arweinwyr ysgolion eisoes wedi mynegi pryder ynghylch yr anhawster recriwtio staff i mewn i'r sector cyfrwng Saesneg gyda'r sgiliau iaith a'r dull priodol i gyflwyno Cymraeg a chyflawni safonau uchel o ganlyniadau disgyblion, ac maent yn credu y bydd hyn yn cael ei gymhlethu ymhellach gyda chyflwyno'r cwrs hwn sy'n fwy anodd. Bydd yr awdurdod lleol yn ceisio gweithio mewn cydweithrediad agos â GwE a gyda Wrecsam fel ei awdurdod cyfagos, i gynyddu'r cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer staff i ddarparu'r fanyleb newydd ac mae rhwydweithiau lleol eisoes yn cynnal cyfarfodydd proffesiynol er mwyn rhannu gwybodaeth ac arfer gorau.

Mae cyflwyniad y Siarter Iaith mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn cael effaith fawr ac mae ei chwblhau i'r safon aur ym mhob ysgol cyfrwng Cymraeg erbyn 2018 yn flaenoriaeth allweddol ac yn ffocws pwysig o waith y Tîm. Bydd y cynllun peilot arfaethedig a rhaglen cyflwyno'r Siarter ar gyfer Cymraeg Ail Iaith, Cymraeg Campus, dros y tair blynedd nesaf, yn rhan hanfodol o gynllun yr awdurdod i wella ansawdd y Gymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg, a allai gael effaith gadarnhaol ar annog disgyblion i gael mynediad at addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg wedyn a dod yn gwbl ddwyieithog. Mae prosiect peilot wedi ei lansio'n ddiweddar yng nghlwstwr ysgolion cynradd Treffynnon yr Awdurdod.

Mae cyfleoedd estynedig ar gyfer datblygiad proffesiynol mewn sgiliau iaith Gymraeg drwy ddefnyddio'r cynlluniau sabothol wedi bod yn llwyddiannus iawn yn Sir y Fflint, ac yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'r rhaglen gyflwyno. Sir y Fflint oedd yr awdurdod cyntaf yng Ngogledd Cymru i dreialu rhaglen sabothol ar gyfer Cymhorthwyr Dosbarth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a ddatblygwyd gan Ganolfan Bedwyr ac a gyflwynir rhyngddynt ac aelod o Dîm Ymgynghorol y Gymraeg Sir y Fflint. Mae hyn bellach yn cael ei gyflwyno ar draws y rhanbarth a bydd Sir y Fflint yn parhau i dargedu niferoedd uchel o gymhorthwyr ar gyfer y cwrs hwn gan fod ei effaith wedi bod yn arwyddocaol.

Mae Lefel Mynediad y rhaglen Sabothol yn cael ei chynnig i Gymhorthwyr Addysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg - ym mis Medi 2015, roedd 9 o'r 11 a oedd yn bresennol ar y cwrs yn dod o Sir y Fflint. Bydd y cwrs nesaf sydd ar gael ym mis Ebrill 2017, ac mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg ar hyn o bryd yn nodi cyfranogwyr posibl drwy eu sesiynau hyfforddi ac ymweliadau ysgol. Bydd parhau i wella sgiliau'r staff cymorth mewn ysgolion i fod yn sail i gyflwyniad effeithiol o'r cwricwlwm yn parhau i fod yn flaenoriaeth graidd yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Ar gyfer staff mewn ysgolion cyfrwng Saesneg fel dysgwyr Cymraeg ail iaith, mae'r rhaglen sabothol Lefel Sylfaenol yn cael ei chynnig i'r rhai sydd wedi cwblhau rhaglenni hyfforddiant yr awdurdod lleol yn llwyddiannus ac yn awyddus i ymestyn eu sgiliau iaith hyd yn oed ymhellach. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda staff Sir y Fflint, gyda nifer ohonynt yn gyfranogwyr y cwrs. Y targed ar gyfer 2017 yw y bydd 5 aelod staff o ysgolion Sir y Fflint yn cymryd rhan yn y rhaglen nesaf. Hyd yn hyn mae 17 o athrawon wedi cwblhau'r cyfnod sabothol ac o'r rhai hynny, roedd o leiaf 3 yn Benaethiaid Cynradd. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar eu hysgolion am eu bod wedi arwain trwy esiampl ac yna wedi annog a chefnogi staff eraill yn eu hysgolion i wella eu sgiliau iaith Gymraeg.

Un o flaenoriaethau allweddol y cynllun strategol hwn fydd codi ymwybyddiaeth Llywodraethwyr o strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a sut y bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y targed hwn. Fel sir ar y ffin mae peth tystiolaeth mewn rhai ysgolion nad yw pobl yn ei ystyried yn flaenoriaeth ac yn anffodus, mae'r farn hon yn cael ei chefnogi'n aml gan rieni yn yr ardaloedd hyn. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw sicrhau bod llywodraethwyr yn deall eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a chymwysterau drwy hyfforddiant wedi'i dargedu, rhannu gwybodaeth reolaidd a monitro darpariaeth a deilliannau yn y Gymraeg ym mhob ysgol.

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, y defnydd o Hwb a dylanwad sylweddol apiau ar gyfer cefnogi dysgu i gyd angen cael eu defnyddio i gael effaith gadarnhaol ar safonau'r Gymraeg a gyflawnir gan ddisgyblion a gallu ieithyddol y gweithlu. Mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg Sir y Fflint eisoes yn defnyddio Hwb fel rhan

o'u hyfforddiant lleol a thrawsawdurdod drwy greu rhwydweithiau Hwb, lle gall cyfranogwyr y cwrs rannu adnoddau a darparu cymorth parhaus i'w gilydd. Mae datblygu Apiau i gefnogi'r fethodoleg iaith ac addysgu Cymraeg yn cael eu defnyddio fwyfwy i gynnwys staff a disgyblion, oherwydd eu huniongyrchedd, eu hygyrchedd a'u perthnasedd i'r byd modern ac mae datblygiad pellach o'r rhain yn elfen allweddol o gynllun strategol Sir y Fflint yn y dyfodol.

Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r heriau a wynebir gan ei ysgolion wrth recriwtio athrawon o ansawdd uchel a staff cymorth yn gallu cyflwyno'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae tystiolaeth o heriau penodol yn y sector uwchradd mewn rhai meysydd pwnc, e.e. Cymraeg, Cemeg a Ffiseg. Bydd yr awdurdod lleol yn darparu cefnogaeth adnoddau dynol priodol i ysgolion cyfrwng Cymraeg pan fo angen, mewn perthynas â materion recriwtio. Mae hefyd angen hyrwyddo barn gadarnhaol o'r sector addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint ar draws y rhanbarth i ddenu staff i ddod i weithio i'r ardal. Mae'r defnydd o'r cynllun sabothol ar gyfer staff mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi bod yn effeithiol i wella sgiliau ansawdd Cymraeg llafar ac ysgrifenedig y staff cymorth sydd wedi cael eu recriwtio i'r rolau hyn, ar ôl cynnal eu haddysg eu hunain drwy gyfrwng y Gymraeg o'r blaen, ond a oedd wedi colli hyder, eu Cymraeg wedi rhydu neu'n anghyfarwydd â'r derminoleg a ddefnyddir mewn ysgolion. Uchelgais tymor hwy fydd annog disgyblion ysgol uwchradd heddiw yn y sector cyfrwng Cymraeg i gadw eu defnydd o'r Gymraeg a dilyn cyrsiau addysg bellach ac uwch trwy gyfrwng y Gymraeg, a'i ystyried yn gam cadarnhaol i ddatblygu eu cyfleoedd gyrfa yn yr ardal.

Cafodd archwiliad Sgiliau Iaith Gymraeg yr holl staff yn ysgolion Sir y Fflint ei gynnal yn 2013, ac mae wedi cael ei ddefnyddio i dargedu staff i wella eu sgiliau iaith drwy hyfforddiant a'r cynllun sabothol. Mae hefyd wedi helpu'r awdurdod lleol nodi lle mae staff ar hyn o bryd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sydd â sgiliau iaith Gymraeg lefel uchel. Trwy ei gyfarfodydd rheolaidd gyda Phenaethiaid i ddiweddaru Proffil Iaith Gymraeg yr ysgol, gall Tîm Ymgynghorol y Gymraeg geisio sicrhau bod y staff hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol i wella sgiliau ail iaith y disgyblion a'r staff, neu hyd yn oed eu hannog i wneud cais am swyddi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Bydd yr archwiliad hwn yn cael ei ailadrodd yn 2017-18 fel rhan o ddull consortia rhanbarthol i ddatblygu'r gweithlu i gefnogi Cymraeg mewn Addysg. Mae hyn mewn ymateb i'r cyhoeddiad diweddar o gyllid ychwanegol i'r consortia rhanbarthol. Bydd y data sy'n cael ei gasglu yna'n llywio cynllunio lleol a rhanbarthol ar gyfer datblygu staff. Mae Sir y Fflint eisoes wedi nodi maes allweddol o angen yng Nghyfnod Allweddol 3, lle mae tystiolaeth yn dangos bod angen i staff wella eu sgiliau iaith Gymraeg bob dydd, yn ogystal â datblygu eu dealltwriaeth a defnydd o eirfa sy'n benodol i bwnc. Byddai gwelliannau yn y maes hwn yn sicrhau bod cynnydd da mewn sgiliau iaith disgyblion CA2 yn cael ei wella ymhellach yn CA3, gan roi llwyfan cryfach ar gyfer llwyddiant yn CA4.

Mae datblygu arweinwyr cryf yn y sector cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth allweddol arall ar gyfer Sir y Fflint, gan fod y niferoedd presennol sy'n cael mynediad at y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth drwy'r Gymraeg ac ar gyfer prifathrawiaeth cyfrwng Cymraeg, yn isel. Byddai proffil cyfredol arweinyddiaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint yn dangos y rhagwelir rhywfaint o drosiant mewn swyddi penaethiaid yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Mae'r gwasanaeth rhanbarthol, GwE, wedi datblygu continwwm arloesol o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth ar bob lefel, o athrawon sydd newydd gymhwyso, drwy arweinyddiaeth ganol ac yn y pendraw i uwch arweinyddiaeth a phrifathrawiaeth. Bydd yn darged Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg er mwyn sicrhau bod niferoedd uwch o arweinwyr posibl yn cael mynediad at y rhaglen hon a symud ymlaen i brifathrawiaeth yn y sector cyfrwng Cymraeg, a all fod yn fwy sefydlog yn yr awdurdod hwn oherwydd bod llai o ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer dyrchafiad.

Mewn menter ddiweddar rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid Integredig, The Fine Dining Company a'r Urdd, cafodd nifer o bobl ifanc o Ysgol Maes Garmon eu hyfforddi mewn sgiliau arlwyo a gweini trwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn darparu profiad bwyta ffurfiol i godi arian ar gyfer Eisteddfod 2016 yn y Fflint. Mae'r fenter hon yn llwyddiant mawr, ac o ganlyniad, mae 8 o bobl ifanc a gafodd eu hyfforddi wedi bod yn cymryd rhan ar sail rhan amser gyda'r cwmni arlwyo pan fyddant ar gael o amgylch eu hastudiaethau yn yr ysgol neu brifysgol, i'w cynorthwyo gyda digwyddiadau bwyta Cymraeg.

Mae'r Urdd hefyd yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli ac achredu trwy gyfrwng y Gymraeg i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth, ac i ddatblygu hyder yn eu galluoedd trwy weithio fel rhan o dîm. Mae pob gwirfoddolwr yn cael ei gofrestru ar gronfa ddata'r Urdd ac mae pob gwirfoddolwr yn cael llythyr o ddiolch a thystysgrif i gydnabod eu cyflawniad. Bydd un o'r blaenoriaethau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig yn cynnwys datblygu cyfleoedd fel hyn ymhellach.

Yn eu cyfarfodydd rheolaidd gyda Gweision Sifil mewn perthynas â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, bydd uwch-swyddogion Sir y Fflint hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried materion cenedlaethol a rhanbarthol o ran sicrhau gweithlu sydd â chymwysterau ieithyddol addas e.e. drwy sicrhau bod digon o leoedd hyfforddi athrawon cyfrwng Cymraeg yn y rhanbarth a thrwy ddefnyddio pwerau statudol i hyrwyddo cymhwysedd staff yn y defnydd o'r Gymraeg e.e. drwy reoliadau sy'n ymwneud â Rheoli Perfformiad, Cynlluniau Gwella Ysgolion, Adroddiadau Blynyddol i Rieni a defnyddio Grant Gwella Addysg.

Llofnod: Dyddiad: 11.09.18

Claire Homard, Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid, Cyngor Sir y Fflint

Canlyniadau'r Broses Ymgynghori

Derbyniodd Sir y Fflint ymatebion i'r ymgynghoriad gan y canlynol:

- Comisiynydd y Gymraeg
- Urdd Gobaith Cymru
- Cymdeithas yr Iaith a Syfflag (ymateb ar y cyd)
- Mudiad Methrin
- Mr H Bryn Jones
- Mrs S Bailey – Cadeirydd y Corff Llywodraethol, Ysgol Croes Atti, y Fflint

Roedd sylwadau'r ymatebwyr yn gyffredinol gadarnhaol ac yn cydnabod gweledigaeth ac uchelgais Cyngor Sir y Fflint i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ac i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Gwnaed rhaid sylwadau penodol ynghylch y modd yr oedd rhai rhannau o'r cynllun wedi'u geirio felly addaswyd rhai darnau o'r tesun i adlewyrchu'r awgrymiadau hyn.

Roedd sawl ymatebydd yn dymuno gweld rhagor o eglurder ynghylch cynlluniau'r awdurdod ar gyfer ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol, gan gynnwys ymestyn yr ystod o gategorïau o ysgolion yn ôl y Gymraeg. Mae'r awgrymiadau hyn wedi'u cydnabod a byddant yn cael eu cyfeirio atynt yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor ac yng nghynlluniau busnes y dyfodol ar gyfer cyllid Ysgolion 21G.

Roedd cais am gamau gweithredu mwy manwl er mwyn cyflawni'r weledigaeth yn ymateb cyffredin i'r drafft. Mae CSCA Cyngor Sir y Fflint yn cadw'n ffyddlon at y templed a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ond roedd y Fforwm eisoes wedi penderfynu cyn ymgynghori y byddai cynllun gweithredu manylach i gyd-fynd â'r ddogfen strategol yn declyn defnyddiol i gefnogi darpariaeth a monitro'r dyfodol. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cael ei roi at ei

gilydd gan aelodau'r Fforwm ar hyn o bryd a bydd ar waith erbyn 1 Ebrill 2017 ac yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r CSCA erbyn y dyddiad terfynol ar gyfer gosod cynlluniau ar wefannau Cynghorau, sef 1 Mehefin 2017.

Hoffai Cyngor Sir y Fflint fynegi ei ddiolch i bawb a gyflwynodd adborth adeiladol ar ei Gynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg 2017-2020.

Canlyniad 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg				
Darpariaeth sy'n ehangu	**Cyfredol**	**2017-18**	**2018-19**	**2019-20**
Beth yw canran y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu ar hyn o bryd drwy gyfrwng y Gymraeg?	**6.6%**	**6.8%**	**7.2%**	**7.4%**
Canlyniad 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd				
Darpariaeth sy'n ehangu	**Cyfredol**	**2017-18**	**2018-19**	**2019-20**
Beth yw canran cyfredol y dysgwyr ym Mlwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg (Iaith Gyntaf)?	**5.6%**	**5.5%**	**5.6%**	**7.4%**
Sut mae'r ffigur hwn yn cymharu â chanran y dysgwyr ym Mlwyddyn 6 a gafodd eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf) dair blynedd yn gynharach? (2013)			**8.0%**	**(-2.4%)**
Trosglwyddo effeithiol a pharhad ieithyddol - cyfraddau dilyniant rhwng:				
*Nodwch, yn Sir y Fflint, mae mynediad at addysg blynyddoedd cynnar rhan amser (10 awr) yn seiliedig ar ddyddiadau geni rhwng mis Medi a mis Ebrill. Nid yw plant sy'n cael eu geni yn yr Haf yn derbyn y cynnig addysg o 10 awr o addysg rhan amser, ond yn mynd yn syth i mewn i ddarpariaeth feithrin yn yr ysgol am 12.5 awr os ydynt yn 3 oed erbyn 31 Awst bob blwyddyn.				
Lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir i blant o dan 3 a lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir wedi'u hariannu, sy'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen				100% o blant cymwys
Lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir i blant o dan 3 ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a gynhelir, sy'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen *(Yn seiliedig ar 7 lleoliad nas cynhelir a ariennir, un gymharol newydd mewn ardal Seisnigaidd iawn ar y ffin â Lloegr. Os yw'r lleoliad hwn yn cael ei dynnu o'r data, yna mae'r ganran yn gwella)*				85% *(95%)*
Lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir i blant o dan 3 a lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir wedi'u hariannu, sy'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ac ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnal wedi hynny *(*gweler nodyn uchod)*				85% *(95%)*
Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2				100%
Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 *(*Y gobaith yw y bydd y ffederasiwn newydd rhwng Ysgol Mornant ac Ysgol Maes Garmon yn gwella'r cyfraddau trosglwyddo ym mhen gogleddol y sir yn y dyfodol oherwydd yn y gorffennol, mae rhai disgyblion wedi eu colli i ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn Sir Ddinbych, sef yr ysgol uwchradd agosaf at ysgol Mornant)*				89%
Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4				100%
* Nid oes unrhyw ysgolion dwyieithog yn Sir y Fflint				Amh.
Canlyniad 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg				
Cynyddu canran y dysgwyr 14-16 oed sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg	**Cyfredol**	**2017-18**	**2018-19**	**2019-20**
Beth yw canran presennol dysgwyr Blwyddyn 11 sy'n cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, sy'n astudio ar gyfer **5** neu fwy o gymwysterau Lefel 1 neu Lefel 2 pellach drwy gyfrwng y Gymraeg?	89 disgybl **5.5%** o gyfanswm	62 disgybl **3.9%** o gyfanswm	86 disgybl **5.6%** o gyfanswm	93 disgybl **5.5%** o gyfanswm

(NI ddylech gynnwys llenyddiaeth Gymraeg. Mae TGAU Cymhwysol, dwbl gwyddoniaeth yn cyfrif fel dau bwnc; cyrsiau byr yn cyfrif fel un pwnc. Efallai na fydd yn bosibl cynnwys BTEC gan nad yw'r corff dyfarnu yn gwahaniaethu rhwng cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg) **Mae gan Sir y Fflint un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg**	poblogaeth Bl 11	poblogaeth Bl 11	poblogaeth Bl 11	poblogaeth Bl 11
Beth yw canran presennol dysgwyr Blwyddyn 11 sy'n cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, sy'n astudio ar gyfer **2** neu fwy o gymwysterau Lefel 1 neu Lefel 2 <u>pellach</u> drwy gyfrwng y Gymraeg? *(NI ddylech gynnwys llenyddiaeth Gymraeg. Mae TGAU Cymhwysol, dwbl gwyddoniaeth yn cyfrif fel dau bwnc; cyrsiau byr yn cyfrif fel un pwnc. Efallai na fydd yn bosibl cynnwys BTEC gan nad yw'r corff dyfarnu yn gwahaniaethu rhwng cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg)* **Mae gan Sir y Fflint un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg**	89 disgybl **5.5%** o gyfanswm poblogaeth Bl 11	62 disgybl **3.9%** o gyfanswm poblogaeth Bl 11	86 disgybl **5.6%** o gyfanswm poblogaeth Bl 11	93 disgybl **5.5%** o gyfanswm poblogaeth Bl 11
Beth yw canran y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau				
a) trwy gyfrwng y Gymraeg?				6.5%
b) yn ddwyieithog e.e. elfennau o gymwysterau / modiwlau?				n/a
	Cyfredol	**2017-18**	**2018-19**	**2019-20**
Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyrraedd o leiaf Canlyniad 5 y Cyfnod Sylfaen mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg / dwyieithog? *Canlyniad 6*	**88.1%** ***33.9%***	**94.2%** ***41.7%***	**94.7%** ***43.6%***	**95.1%** ***45.4%***
Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 mewn asesiad athrawon yn Gymraeg? *Lefel 5*	**84.3%** ***37.3%***	**96.5%** ***41.3%***	**97.8%** ***43.3%***	**99.2%** **45.4%**
Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 mewn asesiad athrawon yn Gymraeg? *Lefel 6+*	**96.8%** ***63.5%***	**97.8%** ***65.6%***	**98.8%** ***67.7%***	**99.2%** ***69.8%***

Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg iaith gyntaf?	**68.9%**	**78.7%**	**79.3%**	**79.8%**
Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith	**Cyfredol**	**2017-18**	**2018-19**	**2019-20**
Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 mewn asesiad athrawon Cymraeg Ail Iaith?	**79.4%**	**I'w gadarnhau**	**I'w gadarnhau**	**I'w gadarnhau**
Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf LefeI 5 mewn asesiad athrawon Cymraeg Ail Iaith?	**86.4%**	**I'w gadarnhau**	**I'w gadarnhau**	**I'w gadarnhau**
Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni graddau A*-C mewn Cwrs Llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith?	**80.4%**	**I'w gadarnhau**	**I'w gadarnhau**	**I'w gadarnhau**
Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni graddau A*-C mewn Cwrs Byr TGAU Cymraeg Ail Iaith?	**57.4%**	**I'w gadarnhau**	**I'w gadarnhau**	**I'w gadarnhau**
Pa ganran o'r garfan sy'n cofrestru ar gyfer:	**Cyfredol**	**2017-18**	**2018-19**	**2019-20**
(i) Cwrs Llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith	**17.8%**	**I'w gadarnhau**	**I'w gadarnhau**	**I'w gadarnhau**
(ii) Cwrs Byr TGAU Cymraeg Ail Iaith	**53.3%**			
(iii) nid wedi'u cofrestru ar gyfer y naill na'r llall	**28.9%**	**I'w gadarnhau**	**I'w gadarnhau**	**I'w gadarnhau**
Mae'n anodd sefydlu targedau'r dyfodol ar gyfer Cwrs Llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith ar hyn o bryd, gan fod ysgolion yn dal yn y cam cynllunio ar gyfer y cymhwyster newydd hwn ac yn aros am arweiniad gan CBAC ynglŷn â chynnwys y cwrs, a all gael effaith ar niferoedd y disgyblion a gofrestrir ar gyfer y cymhwyster hwn y flwyddyn nesaf a thu hwnt. Nid yw gosod targedau ar gyfer Cymraeg Ail Iaith yn cael ei gynnwys ar hyn o bryd yn y fethodoleg o osod targedau rhanbarthol, felly mae hyn yn cael ei wneud ar wahân ar hyn o bryd gan yr Awdurdod Lleol.				
Mwy o ddysgwyr â sgiliau Cymraeg lefel uwch				
Beth yw cyfanswm cyfredol ceisiadau Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf fel canran o geisiadau TGAU Cymraeg iaith gyntaf ddwy flynedd ynghynt?				**2.6%**
Beth yw cyfanswm cyfredol ceisiadau Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith fel canran o geisiadau TGAU cwrs llawn a byr Cymraeg Ail Iaith ddwy flynedd ynghynt?				**1.4%**

Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg Sir y Fflint Atodiad 2 - Rhestr Termau

ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
CyADY	Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
Hawl Bore Oes	Darpariaeth Sir y Fflint ar gyfer addysg am ddim, rhan-amser ar gyfer plant 3 oed
GwE	Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion Gogledd Cymru (yn cynnwys Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn)
Hwb	Llwyfan Digidol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru
ALl	Awdurdod Lleol h.y. Cyngor Sir y Fflint
Trochi	Rhaglen bontio ar gyfer trochi yn y Gymraeg
Urdd	Mudiad Ieuenctid Cymru
CIG	Cymraeg Iaith Gyntaf
CAI	Cymraeg ail iaith
CSCA	Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir y Fflint Atodiad 3 - Ymgyngoreion Statudol

Rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â'r canlynol ar y Cynllun yn y drafft:
Adran 84 o Ddeddf Safonau a Sefydliadau Ysgolion (Cymru) 2013:

- awdurdodau lleol cyfagos
- pennaeth pob ysgol sy'n cael ei gynnal ganddo
- corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ganddo
- pob sefydliad yn y sector addysg bellach yn ei ardal
- mewn perthynas ag unrhyw ysgol sefydledig neu wirfoddol yn ei ardal -
    - y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig
    - os oes gan yr ysgol gymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol
- unigolion rhagnodedig eraill.

Mae unigolion rhagnodedig eraill yn cael eu rhestru yn Rheoliad 9:

- Comisiynydd y Gymraeg
- y Bartneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- cynghorau ysgol
- Prif Arolygwr Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
- sefydliadau o'r fath sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc fel y mae'r awdurdod lleol yn eu hystyried yn briodol
- unigolion neu gyrff eraill y mae'n ymddangos i'r awdurdod lleol o fod yn briodol.